Manchester Metropolitan University

Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol Cymru
National Independent Safeguarding Board Wales

# Adolygiadau Ymarfer Plant: Ffocws ar safbwynt a phrofiad go iawn y plentyn

## Dadansoddiad Thematig o Adolygiadau Ymarfer Plant yng Nghymru o 2018 i 2023

Mai 2026



Institute for Children's Futures


**Awduron**

**Dr Emma Ball**, Uwch-gydymaith Ymchwil Diogelu ac Atal Trais, Prifysgol Metropolitan Manceinion.

**Paige Monaghan**, Cydymaith Ymchwil Diogelu ac Atal Trais, Prifysgol Metropolitan Manceinion.

**Yr Athro Michelle McManus**, Athro Diogelu ac Atal Trais, Cyfarwyddwr y Sefydliad er Dyfodol Plant, Prifysgol Metropolitan Manceinion.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â Dr Emma Ball: e.ball@mmu.ac.uk

# Rhagair

Mae awduron yr adolygiad thematig hwn yn cydnabod bod yr amgylchiadau a arweiniodd at yr Adolygiadau Ymarfer Plant hyn yn dorcalonnus tu hwnt. Maent yn ymwneud â phlant sydd wedi profi niwed difrifol neu sydd wedi colli eu bywydau, ac mae effaith y digwyddiadau'n ymestyn i'w teuluoedd, eu ffrindiau, ymarferwyr, a'r gweithwyr proffesiynol sy'n ymwneud ag adolygu'r achosion. Rydym yn ddiolchgar i bawb sydd wedi cyfrannu i'r broses adolygu ac i'r dysgu sy'n deillio ohoni.

Mae'n bwysig cydnabod mai cyfran fach yn unig o weithgarwch diogelu yw Adolygiadau Ymarfer Plant; maent yn ymwneud yn benodol â'r achosion hynny lle mae niwed wedi gwaethygu i'r fath raddau fel bod angen adolygiad statudol. Ni ddylid ystyried, felly, bod canfyddiadau'r adroddiad hwn yn cyfleu ymarfer diogelu'n ehangach. Yn hytrach, maent yn taflu goleuni ar y sefyllfaoedd mwyaf cymhleth a heriol, lle nad yw ymatebion diogelu amlasiantaethol wedi gweithredu mor effeithiol ag a fwriadwyd, a hynny'n aml mewn amgylcheddau sy'n gofyn llawer ac sydd ag adnoddau cyfyngedig.

Mae'r adroddiad hwn yn adeiladu ar ddadansoddiad cenedlaethol blaenorol o Adolygiadau Ymarfer Plant yng Nghymru, ac mae'n parhau i adlewyrchu'r pwysau sylweddol sydd yn y system ddiogelu. Mae ymarferwyr ac arweinwyr yn gweithredu yng nghyd-destun galw cynyddol, heriau o ran y gweithlu, a chymhlethdod gweithio gyda phlant a theuluoedd sy'n profi helbulon niferus sy'n gorgyffwrdd â'i gilydd. Hoffai'r awduron gydnabod ymrwymiad, proffesiynoldeb ac ymroddiad y sawl sy'n gweithio ar draws gwasanaethau diogelu, y mae llawer ohonynt yn parhau i wneud mwy na'r disgwyl yn eu hymdrechion i gynorthwyo plant a theuluoedd.

Pwrpas y dadansoddiad thematig hwn yw hybu myfyrio, dysgu a gwella. Ni fwriedir iddo fwrw bai ar unigolion, asiantaethau, neu ardaloedd lleol. Yn hytrach, mae'n ceisio adnabod themâu sy'n codi dro ar ôl tro, heriau, ac enghreifftiau o ymarfer effeithiol er mwyn cryfhau systemau ac ymatebion diogelu ar draws Cymru.

Un ffocws allweddol i'r adolygiad hwn yw'r graddau y caiff profiad go iawn y plentyn ei ddeall, ei gyfleu a'i ddefnyddio mewn Adolygiadau Ymarfer Plant. Mae dadansoddiadau blaenorol wedi amlygu pwysigrwydd clywed llais y plentyn, ond mae'r adroddiad hwn yn rhoi mwy o bwys ar sut y caiff tystiolaeth o'r llais hwnnw ei dangos, sut y caiff profiadau plant o ddydd i ddydd eu deall yn eu cyd-destun ehangach, a sut y mae'r ddealltwriaeth honno'n llywio penderfyniadau a chamau gweithredu proffesiynol.

Mae cynnal y dadansoddiad hwn yn gofyn am fyfyrio gofalus, sydd weithiau'n anghysurus, ynghylch sefyllfaoedd lle na wnaeth ymatebion diogelu gyflawni'r canlyniadau a fwriadwyd. Fodd bynnag, mae myfyrio o'r fath yn hanfodol os bwriedir i ddysgu fod yn weithgarwch ystyrlon sy'n digwydd yn barhaus. Yn ogystal ag adnabod meysydd ar gyfer gwella, mae'r adroddiad hwn hefyd yn cydnabod enghreifftiau o ymarfer effeithiol a meddylgar a all lywio dulliau gweithredu yn y dyfodol. Nod yr adroddiad hwn yn y pen draw yw cyfrannu i ddatblygiad parhaus ymarfer diogelu, drwy gryfhau'r modd y mae systemau'n adnabod ac yn deall profiadau go iawn plant ac yn ymateb iddynt. Drwy wneud hynny, mae'n ceisio hybu ymarfer diogelu mwy effeithiol a chyson ar draws Cymru, sy'n canolbwyntio'n fwy helaeth ar y plentyn.

# Crynodeb gweithredol

Mae'r adroddiad briffio hwn yn cyflwyno canfyddiadau dadansoddiad thematig o 24 o Adolygiadau Ymarfer Plant a gynhaliwyd ar draws y chwe Bwrdd Diogelu Rhanbarthol sydd yng Nghymru. Mae'r adolygiadau'n ymwneud â phlant a brofodd niwed difrifol neu a gollodd eu bywydau, ac maent yn darparu cyfle hollbwysig i fyfyrio ynghylch ymarfer diogelu, gwaith amlasiantaethol, a'r modd y gellir cryfhau dysgu er mwyn gwella ymatebion yn y dyfodol. Mae'r digwyddiadau a archwiliwyd yn dyddio o'r cyfnod rhwng 2018 a 2023, sef cyfnod sy'n cynnwys y pandemig COVID-19, ac mae'n debygol bod hynny wedi dylanwadu ar y modd y câi gwasanaethau eu darparu ac wedi dylanwadu ar gapasiti'r gweithlu ac ar ymarfer diogelu.

Mae'r adolygiad hwn yn adeiladu ar ddadansoddiad thematig cenedlaethol 2023 o Adolygiadau Ymarfer Plant, ond mae'n mabwysiadu dull gwahanol o weithredu sydd â mwy o ffocws. Yn hytrach nag archwilio systemau diogelu drwy batrymau risg ac ymateb yn unig, mae'r dadansoddiad hwn yn canolbwyntio ar sut y caiff profiad go iawn y plentyn ei ddeall, ei gyfleu, a'i ddefnyddio mewn Adolygiadau Ymarfer Plant. Wrth wneud hynny, mae'n amlygu gwahaniaeth hollbwysig rhwng cofnodi'r gweithgarwch diogelu sydd wedi digwydd, deall y gweithgarwch hwnnw o safbwynt y plentyn, a dangos sut y mae'r ddealltwriaeth honno'n llywio penderfyniadau a chanlyniadau.

Ar draws yr Adolygiadau Ymarfer Plant a ddadansoddwyd, roedd mwyafrif y plant a'r teuluoedd yn hysbys i sawl asiantaeth, a hynny'n aml dros gyfnodau hir o amser. Fodd bynnag, nid oedd yr ymwybyddiaeth honno'n golygu yn gyson bod gweithredu cydgysylltiedig yn digwydd, bod risg yn cael ei pherchenogi ar y cyd, neu bod uwchgyfeirio effeithiol yn digwydd. Prin yr oedd niwed yn gysylltiedig ag un digwyddiad yn unig; yn hytrach, roedd yn adlewyrchu pryderon a oedd yn cronni ac yn gorgyffwrdd â'i gilydd, a oedd yn cynnwys esgeulustod, camdriniaeth ddomestig, iechyd meddwl rhiant/rhieni, a chamddefnyddio sylweddau. Er y câi'r risgiau hynny eu cydnabod yn fynych, roeddent yn aml yn cael eu hasesu ar wahân i'w gilydd, ac roedd hynny'n cyfyngu ar allu gweithwyr proffesiynol i adnabod patrymau lle'r oedd niwed yn gwaethygu dros gyfnod o amser.

Un canfyddiad allweddol ar draws y dadansoddiad yw'r tensiwn parhaus rhwng gweithgarwch gweithdrefnol a dealltwriaeth ystyrlon o brofiad go iawn y plentyn. Er bod asiantaethau'n aml yn ymwneud â'r plentyn a bod camau gweithredu'n cael eu cofnodi, nid oedd realiti'r plentyn o ddydd i ddydd bob amser yn cael ei chyfleu'n glir ac nid oedd tystiolaeth ei bod yn chwarae rhan ganolog wrth i benderfyniadau gael eu gwneud. Roedd yna siarad â'r plant weithiau, ond nid oedd hynny bob amser yn digwydd yn gyson, nid oedd bob amser yn cael ei gyflawni mewn modd a oedd yn eu galluogi i siarad yn rhydd, ac nid oedd bob amser yn cael ei adolygu dros gyfnod o amser. Mewn rhai achosion, roedd blaenoriaeth yn cael ei rhoi i safbwyntiau'r rhieni neu'r gofalwyr neu roedd safbwyntiau'r plant yn cael eu derbyn heb archwilio cyd-destun neu ddylanwad yn ddigonol. Mae hynny'n adlewyrchu'r her barhaus sy'n gysylltiedig â symud o gasglu gwybodaeth am blentyn i ddatblygu dealltwriaeth ddyfnach o'i brofiad go iawn.

Caiff y patrwm hwn ei atgyfnerthu ymhellach gan y canfyddiadau disgrifiadol. Roedd pob un o'r Adolygiadau Ymarfer Plant yn cynnwys rhyw fath o gyfeiriad anuniongyrchol at brofiad go iawn y plentyn, ond roedd llai na'u hanner yn darparu adroddiad clir a phenodol ynghylch llais y plentyn. Yn bwysicach na hynny, dim ond un adolygiad oedd yn dangos sut y bernid bod safbwyntiau'r plentyn yn dylanwadu'n uniongyrchol ar benderfyniadau diogelu. Mae'r canfyddiad hwn yn un hollbwysig ac yn awgrymu, hyd yn oed pan fo lleisiau'r plant yn bresennol, na ddangosir yn gyson bod eu safbwyntiau'n llywio meddylfryd, gwaith asesu neu gamau gweithredu proffesiynol.

Mae bwlch tebyg yn amlwg o ran cynnwys teuluoedd a gofalwyr. Roedd mwyafrif yr Adolygiadau Ymarfer Plant yn cofnodi bod teuluoedd wedi cael eu cynnwys mewn gwaith ymgynghori, ond roedd llai na'u hanner yn amlygu'r cyfraniadau hynny'n glir yn yr adolygiad. Mewn llawer o achosion, roedd y gwaith ymgynghori'n cael ei gofnodi fel gofyniad gweithdrefnol, heb ddangos beth oedd wedi'i rannu neu sut yr oedd wedi llywio'r dysgu. Mae canfyddiadau ansoddol yn atgyfnerthu hynny, wrth i deuluoedd bwysleisio pwysigrwydd cael rhywrai i wrando arnynt, pwysigrwydd cyfathrebu clir, a phwysigrwydd cael eu cynnwys yn ystyrlon wrth i benderfyniadau gael eu gwneud. Mae'r cyfan yn awgrymu y gallai ymgynghori droi'n rhywbeth gweithdrefnol yn hytrach nag yn rhywbeth pwrpasol.

Roedd rôl eiriolaeth a phresenoldeb unigolion sy'n hyrwyddo safbwynt y plentyn yn anghyson hefyd. Roedd rhai Adolygiadau Ymarfer Plant yn cyfeirio at eiriolwyr, hyrwyddwyr, neu oedolion y gellir ymddiried ynddynt, ond prin y câi eu rôl ei diffinio'n glir mewn prosesau diogelu. Mewn Adolygiadau Ymarfer Plant Estynedig, lle dylai eiriolaeth annibynnol gael ei chynnig fel mater o drefn, dim ond un o bob tri oedd yn cyfeirio mewn unrhyw fodd at hynny, a nifer fach iawn ohonynt oedd yn dangos sut yr oedd eiriolaeth yn cyfrannu at wneud penderfyniadau. Mae'r canfyddiadau ansoddol yn amlygu ymhellach ansicrwydd ynghylch pwy sy'n gyfrifol am sicrhau bod safbwynt y plentyn yn cael ei gyfleu'n gyson, yn enwedig mewn cyd-destunau amlasiantaethol cymhleth.

Cafodd ansefydlogrwydd y gweithlu ei grybwyll mewn ychydig yn llai nag un o bob tri o'r Adolygiadau Ymarfer Plant, drwy gyfeirio at newidiadau ymhlith gweithwyr cymdeithasol, pwysau ar gapasiti, a diffyg parhad o ran cydberthnasau. Mae'r dadansoddiad ansoddol yn amlygu pwysigrwydd ymarfer perthynol, sy'n dangos sut y mae ymddiriedaeth, cysondeb ac ymgysylltu parhaus yn ganolog i ddeall profiad go iawn plentyn. Os oedd yna darfu ar gydberthnasau, roedd yna lai o gyfleoedd i feithrin dealltwriaeth a chymorth ystyrlon.

Mae thema gyson yn ymddangos ar draws y canfyddiadau meintiol ac ansoddol: sef y gwahaniaeth rhwng cofnodi bod rhywbeth wedi digwydd, ei ddeall o safbwynt y plentyn, a dangos sut y mae'r safbwynt hwnnw wedi'i ystyried ac wedi chwarae rôl mewn penderfyniadau a chanlyniadau. Caiff hynny ei adlewyrchu yn y modd y caiff llais y plentyn ei gofnodi efallai, heb weithredu bob amser ar ei sail; yn y modd y gellir cofnodi gwaith ymgynghori, heb ei integreiddio'n glir mewn gwaith dadansoddi; ac yn y modd y caiff argymhellion eu gwneud, heb eu bod bob amser yn deillio'n amlwg o brofiad go iawn y plentyn.

At ei gilydd, mae'r canfyddiadau yn awgrymu bod systemau diogelu'n aml yn effeithiol o ran adnabod a chofnodi risg, ond eu bod yn llai cyson o ran integreiddio profiad go iawn y plentyn wrth wneud penderfyniadau a dysgu. Mae'r goblygiadau ar gyfer ymarfer yn glir. Mae angen symud y tu hwnt i gydymffurfio gweithdrefnol a symud tuag at ddull sy'n canolbwyntio'n fwy cyson ar y plentyn, lle mae profiadau'r plant yn ganolog, yn amlwg ac yn llywio ymatebion diogelu'n weithredol. Bydd cryfhau amlygrwydd ac effaith llais y plentyn, gwella ansawdd a thryloywder ymgysylltu â theuluoedd, egluro rôl eiriolaeth, a sicrhau bod tystiolaeth o'r dysgu ar gael yn gyson a bod y dysgu'n cael ei roi ar waith, yn hollbwysig i wella effeithiolrwydd Adolygiadau Ymarfer Plant a'r system ddiogelu ehangach.



# Cynnwys


| | |
|---|---|
| **01. Cyflwyniad** | **7** |
| **02. Methodoleg** | **9** |
| **03. Dadansoddi disgrifiadol** | **10** |
| 3.1. Ffactorau risg: Nodweddion plant a theuluoedd blaen | 10 |
| 3.2. Ymwybyddiaeth ac ymwneud asiantaethau | 13 |
| 3.3. Amlygrwydd y plentyn | 14 |
| 3.4. Dadansoddi archwiliol pellach | 16 |
| 3.5. Crynodeb o'r gwaith dadansoddi disgrifiadol | 17 |
| **04. Prif ganfyddiadau ansoddol: Profiad go iawn y plentyn** | **18** |
| 4.1. Ymarfer diogelu mewn Adolygiadau Ymarfer Plant | 19 |
| 4.1.1 Cyfleu profiad go iawn mewn Adolygiadau Ymarfer Plant | 19 |
| 4.1.2 Integreiddio safbwynt y plentyn mewn penderfyniadau a chamau gweithredu a sicrhau bod ei safbwynt yn ganolog iddynt | 21 |
| 4.2. Cynnwys y plentyn, y teulu a gofalwyr ym mhroses yr Adolygiad Ymarfer Plant | 24 |
| 4.2.1 Prif faterion o adborth ynghylch safbwyntiau pobl ifanc, teuluoedd a gofalwyr | 24 |
| 4.2.2 Pwyntiau dysgu ac argymhellion yn ymwneud â llais a phrofiad y plentyn | 25 |
| **05. Meddyliau wrth gloi** | **26** |
| **06. Prif bwyntiau dysgu a chyfleoedd i ddatblygu** | **28** |
| 6.1 Dangos tystiolaeth o safbwyntiau plant a deall eu profiadau go iawn drwy gydol y broses ddiogelu | 28 |
| 6.2 Ymgorffori safbwynt y plentyn ar draws yr adolygiad | 28 |
| 6.3 Defnyddio eiriolaeth broffesiynol annibynnol | 28 |
| 6.4 Parhad cydberthnasau llawn ymddiriedaeth ac ymarfer perthynol | 29 |
| 6.5 Tryloywder adborth gan blant, teuluoedd a gofalwyr mewn Adolygiadau Ymarfer Plant | 30 |
| 6.6 Monitro'r modd y caiff argymhellion a phwyntiau dysgu o Adolygiadau Ymarfer Plant eu gweithredu | 30 |
| 6.7 Defnyddio data Adolygiadau Ymarfer Plant ymhellach ar lefel genedlaethol (dysgu o ran Adolygiadau Diogelu Unedig Sengl) | 30 |
| **Cyfeiriadau** | **31** |

| | |
|---|---|
| Tabl 1. Difrifoldeb a gofnodwyd o ran y canlyniad | 10 |
| Tabl 2. Y math trechaf o niwed a gofnodwyd | 11 |
| Tabl 3. Oedran a gofnodwyd ar gyfer y plentyn | 11 |
| Tabl 4. Rhywedd a gofnodwyd ar gyfer y plentyn | 12 |
| Tabl 5. Cyfansoddiad a gofnodwyd o ran brodyr a chwiorydd a'r aelwyd | 12 |
| Tabl 6. Hanes o ran Gwasanaethau Plant a'r trothwy ar gyfer atgyfeiriadau | 13 |
| Tabl 7. Asiantaethau/Sefydliadau y cofnodwyd eu bod wedi ymgysylltu â'r plentyn/teulu cyn y digwyddiad | 13 |
| Tabl 8. Amlygrwydd llais y plentyn mewn Adolygiadau Ymarfer Plant | 14 |
| Tabl 9. Argymhellion a phwyntiau dysgu'n ymwneud â llais y plentyn | 14 |
| Tabl 10. Eiriolaeth a hyrwyddo'r plentyn mewn Adolygiadau Ymarfer Plant | 15 |
| Tabl 11. Ymgynghori â theuluoedd a gofalwyr mewn Adolygiadau Ymarfer Plant | 16 |
| Tabl 12. Themâu ac is-themâu ansoddol | 18 |
| Tabl 13. Safbwynt a arweinir gan systemau neu safbwynt a arweinir gan y plentyn | 26 |
| Ffigur 1. Nifer yr Adolygiadau Ymarfer Plant ar draws y Byrddau Diogelu Rhanbarthol | 10 |
| Ffigur 2. Dangosyddion o ran ffactorau risg a gofnodwyd ar gyfer rhieni / gofalwyr | 12 |
| Ffigur 3. Cyfathrebu â'r plentyn | 20 |

# 01

# Cyflwyniad

Os yw plant yn profi niwed sylweddol neu'n colli eu bywydau, mae Adolygiadau Ymarfer Plant yn darparu cyfle hollbwysig i ddeall beth ddigwyddodd ac i wella ymarfer diogelu proffesiynol a sefydliadol (Child Safeguarding Toolkit, 2026). Mae Adolygiadau Ymarfer Plant yn adolygiadau amlasiantaethol sy'n archwilio manylion a chyd-destun ymwneud asiantaethau â'r plentyn a'i deulu. Maent yn dod ag ymarferwyr, rheolwyr ac uwch-arweinwyr ynghyd i fyfyrio ynghylch ymarfer, systemau a phenderfyniadau. Mae pob adolygiad yn ymwneud ag amgylchiadau torcalonnus tu hwnt i blant, teuluoedd ac ymarferwyr. Pwrpas Adolygiadau Ymarfer Plant yw hybu dysgu a gwella yn hytrach na bwrw bai (Llywodraeth Cymru, 2019).

Yn 2023, bu adolygiad thematig cenedlaethol o Adolygiadau Ymarfer Plant yng Nghymru (McManus et al., 2023) yn archwilio patrymau risg, ymatebion diogelu amlasiantaethol, ac ansawdd a chysondeb prosesau Adolygiadau Ymarfer Plant. Nododd yr adolygiad hwnnw nifer o heriau systemig sy'n codi dro ar ôl tro, a oedd yn cynnwys risg yn cronni dros gyfnod o amser, rôl chwilfrydedd proffesiynol, rhwystrau i rannu gwybodaeth yn effeithiol, ansicrwydd ynghylch trothwyau, a'r anawsterau ymarferol sy'n gysylltiedig â gweithio gyda theuluoedd lle ceir pryderon sy'n bodoli ers amser ond nad ydynt yn cyrraedd yn gyson y trothwy ar gyfer ymyrraeth statudol. Neges ganolog a oedd yn deillio o'r gwaith hwnnw oedd pwysigrwydd deall profiad y plentyn yng nghyd-destun ehangach y teulu a'r system, a'r graddau y mae'r ddealltwriaeth honno'n llywio barn broffesiynol a phenderfyniadau.

Ers cyhoeddi adolygiad 2023, mae trefniadau adolygiadau diogelu yng Nghymru wedi parhau i esblygu. Erbyn hyn, mae Adolygiadau Ymarfer Plant yn rhan o fodel yr Adolygiad Diogelu Unedig Sengl ehangach (Llywodraeth Cymru, 2023). Nod y model hwnnw yw integreiddio gwahanol fathau o adolygiadau mewn un proses sy'n fwy cydlynus. Bwriad hynny yw lleihau dyblygu, cryfhau dysgu amlasiantaethol, a rhoi mwy o bwys ar sut y mae systemau'n gweithredu ar y cyd yn hytrach nag ystyried digwyddiadau ar wahân i'w gilydd. Mae'n newid pwysig yn y dirwedd o ran diogelu, a cheir mwy o ddisgwyliad bod tystiolaeth glir ar gael o unrhyw ddysgu o adolygiadau, bod y dysgu hwnnw'n cael ei gyfleu'n gyson, a'i fod yn cael ei roi ar waith yn effeithiol.

Cafodd yr Adolygiadau Ymarfer Plant a ddadansoddir yn yr adroddiad hwn eu cwblhau dan y trefniadau blaenorol ar gyfer adolygiadau, ond maent yn darparu gwaelodlin bwysig ar gyfer deall heriau parhaus a chyfleoedd yn y dyfodol o fewn model yr Adolygiad Diogelu Unedig Sengl. Mae'n debygol, felly, mai'r adroddiad hwn fydd un o'r dadansoddiadau thematig cenedlaethol olaf o Adolygiadau Ymarfer Plant dan y fframwaith blaenorol. Gan hynny, mae'r canfyddiadau nid yn unig yn taflu goleuni ar ymarfer diogelu ond hefyd yn darparu sylfaen dystiolaeth bwysig ar gyfer llywio sut y caiff dysgu ei gofnodi, ei ddadansoddi a'i droi'n welliant o fewn fframwaith newydd yr Adolygiad Diogelu Unedig Sengl. Mae'n cynnig pwynt myfyrio hollbwysig yn ystod y cyfnod o bontio i brosesau adolygu a arweinir gan yr Adolygiad Diogelu Unedig Sengl, ac mae'n darparu cyfle i ystyried sut y gall dysgu o Adolygiadau Ymarfer Plant lywio datblygiad model yr Adolygiad Diogelu Unedig Sengl yn y dyfodol. Mae, felly, yn rhoi cyfle unigryw i bwyso a mesur themâu sy'n codi dro ar ôl tro, asesu'r graddau y mae dysgu blaenorol wedi cael ei ymgorffori, ac ystyried sut y gall y dysgu hwnnw gael ei ddwyn ymlaen a'i gryfhau yn y dirwedd sy'n esblygu o ran diogelu.

Fel sy'n wir am ddadansoddiadau blaenorol, mae'r Adolygiadau Ymarfer Plant sydd wedi'u cynnwys yn yr astudiaeth hon yn cynrychioli nifer fach iawn o achosion diogelu, ac ni ddylid barnu eu bod yn cynrychioli ymarfer diogelu'n ehangach (McManus et al., 2023; Rees et al., 2019; 2021). Fodd bynnag, maent yn parhau'n ffynhonnell hollbwysig o ddealltwriaeth. Mae'r adolygiadau hyn yn darparu adroddiadau manwl ynghylch sefyllfaoedd lle gwnaeth niwed ddwysáu er gwaethaf ymwneud gweithwyr proffesiynol. Maent, felly, yn cynnig cyfle unigryw i archwilio a yw'r dysgu o adolygiadau blaenorol wedi cael ei ymgorffori, ei gynnal a'i roi ar waith ar draws systemau diogelu.

Mae'r adroddiad briffio hwn yn adeiladu'n uniongyrchol ar adolygiad thematig 2023, ac mae'n rhan o raglen barhaus o waith dadansoddi cenedlaethol. Fodd bynnag, yn hytrach nag ailadrodd canfyddiadau cynharach, mae'r adolygiad hwn yn mabwysiadu dull mwy trylwyr â mwy o ffocws o archwilio llais a safbwynt a phrofiad go iawn y plentyn ym

maes diogelu. Mae hynny'n cynnwys ystyried sut brofiad oedd bywyd pob dydd i'r plentyn, sut yr oedd gweithwyr proffesiynol yn deall profiadau, ymddygiad neu safbwyntiau'r plentyn, ac i ba raddau y chwaraeodd y ddealltwriaeth honno rôl mewn ymatebion diogelu.

Mae'r ffocws hwn yn adlewyrchu her barhaus sydd wedi'i chofnodi yn helaeth ym maes ymarfer diogelu. Mae adolygiadau'n pwysleisio yn fynych bwysigrwydd clywed llais y plentyn a mabwysiadu dull gweithredu sy'n ymdrin â'r teulu cyfan, ond nid yw'r profiadau go iawn hynny bob amser yn cael eu cyfleu'n gyson nac yn glir ar draws asiantaethau neu dros gyfnod o amser. Os yw gwybodaeth yn dameidiog, gall gweithgarwch gweithdrefnol fod yn fwy amlwg na realiti'r plentyn o ddydd i ddydd. Gall hynny gyfyngu ar allu gweithwyr proffesiynol i adnabod patrymau risg sy'n cronni neu sy'n gwaethygu (McManus et al., 2023; Rees et al., 2019; 2021).

Mae'r adolygiad hwn, felly, yn ceisio archwilio nid yn unig a yw lleisiau plant yn bresennol mewn Adolygiadau Ymarfer Plant ond hefyd sut y caiff eu profiadau go iawn eu cyfleu, eu deall a'u hystyried wrth ddadansoddi, gwneud penderfyniadau a dysgu ym maes diogelu. Wrth wneud hynny, nod yr adolygiad hwn yw cyfrannu i ddealltwriaeth ddyfnach o sut y ceir tystiolaeth o ymarfer sy'n canolbwyntio ar y plentyn mewn Adolygiadau Ymarfer Plant a sut y gellir cryfhau hynny mewn systemau diogelu sy'n esblygu.

Fel a oedd yn wir am adolygiad 2023, bwriedir i'r adroddiad hwn fod yn adeiladol yn hytrach nag yn feirniadol. Ei bwrpas yw hybu myfyrio, dysgu a gwella, a'i nod cyffredinol yw cryfhau'r modd y mae systemau diogelu'n adnabod ac yn cofnodi profiadau go iawn plant ar draws Cymru ac yn ymateb iddynt.



# 02

# Methodoleg

Defnyddiodd yr astudiaeth hon fethodoleg dulliau cymysg pen desg, gan gyfuno gwaith dadansoddi thematig ansoddol â gwaith dadansoddi meintiol disgrifiadol ac archwiliol. Mae'r fethodoleg yn adeiladu ar y dull gweithredu a fabwysiadwyd yn adolygiad thematig 2023 o Adolygiadau Ymarfer Plant yng Nghymru (McManus et al., 2023), ac mae hefyd yn canolbwyntio'n fwy helaeth ar sut y caiff profiad go iawn y plentyn ei gofnodi a'i ddeall mewn adolygiadau diogelu.



Roedd y dadansoddiad yn cynnwys 24 o Adolygiadau Ymarfer Plant a gynhaliwyd ar draws y Byrddau Diogelu Rhanbarthol sydd yng Nghymru. Cafodd Adolygiadau Ymarfer Plant Cryno ac Estynedig eu cynnwys a'u dadansoddi yn llawn. Mae'r adolygiadau'n ymwneud â phlant a brofodd niwed sylweddol neu a gollodd eu bywydau, a chawsant eu harchwilio gan ddefnyddio'r adroddiadau wedi'u cyhoeddi a ddarparwyd at ddibenion yr astudiaeth hon. Ni ddigwyddodd unrhyw ymgysylltu uniongyrchol â phlant, teuluoedd nac ymarferwyr yn rhan o'r ymchwil.

Cafodd dadansoddiad thematig ansoddol ei gynnal er mwyn archwilio sut y câi bywydau pob dydd y plant, eu cydberthnasau, eu hamgylcheddau a'u profiadau eu disgrifio yn yr Adolygiadau Ymarfer Plant Cryno ac Estynedig. Rhoddwyd sylw penodol i'r modd y câi lleisiau, ymddygiad a phrofiadau go iawn y plant eu cofnodi a'u dehongli yn naratif yr adolygiadau. Cafodd themâu eu nodi drwy broses ailadrodd, gan ddefnyddio dull Braun a Clarke (2006) o ymdrin â dadansoddi thematig, gan fanteisio ar y dysgu o adolygiad 2023 yn ogystal â galluogi themâu newydd i ddod i'r amlwg yn anwythol o'r data.

Er mwyn hybu cysondeb wrth godio, cafodd archwiliad o ddibynadwyedd rhwng gwerthuswyr ei gynnal gan ddefnyddio capa Cohen. Cafodd 10 y cant o'r Adolygiadau Ymarfer Plant eu codio'n annibynnol gan ail adolygwr, a chafodd cytundeb rhwng y codwyr ei asesu. Mae'r sgôr ddilynol ($\kappa = .835$, $p < .001$) yn dangos lefel gryf iawn o gytundeb ynghylch sut y cafodd themâu eu dehongli a'u defnyddio. Er nad yw dibynadwyedd rhwng gwerthuswyr bob amser yn un o nodweddion ymchwil ansoddol, cafodd ei ddefnyddio yma er mwyn cryfhau hyder yng nghysondeb y codio. Bernid bod hynny'n arbennig o bwysig o gofio natur y dadansoddiad, a oedd yn canolbwyntio ar ymarfer, a'r goblygiadau posibl ar gyfer dysgu a gwella ym maes diogelu, yn enwedig yng nghyswllt newidynnau allweddol megis amlygrwydd llais y plentyn a'r dehongliad ohono.

Yn ogystal â'r gwaith dadansoddi ansoddol, cafodd gwaith dadansoddi ystadegol disgrifiadol ei gyflawni er mwyn crynhoi'r prif nodweddion ar draws y garfan, a oedd yn cynnwys ffactorau'n ymwneud â'r plentyn a'r teulu, mathau o niwed, a phatrymau ymwneud asiantaethau. Cafodd y canfyddiadau disgrifiadol hyn eu defnyddio i nodi tueddiadau cyffredin a meysydd lle'r oedd amrywio'n digwydd ar draws yr adolygiadau.


Cafodd gwaith dadansoddi ystadegol archwiliol pellach ei gyflawni er mwyn archwilio cydberthnasau rhwng newidynnau a ddewiswyd, yn enwedig rhai a oedd yn ymwneud â llais a phrofiad go iawn y plentyn. O gofio maint bach y sampl ($n = 24$), mae'r dadansoddiad hwn yn un archwiliol ei natur a bwriedir iddo ategu'r canfyddiadau ansoddol drwy hybu dealltwriaeth fanylach o batrymau yn y data, yn hytrach na phennu achosiaeth.

# 03

# Dadansoddi disgrifiadol

Cafodd 24 o Adolygiadau Ymarfer Plant eu cynnwys yn yr adroddiad hwn, o'r chwe Bwrdd Diogelu Rhanbarthol sydd yng Nghymru. Yn gyffredinol, roedd dosbarthiad yr Adolygiadau Ymarfer Plant ar draws y Byrddau Diogelu Rhanbarthol yn parhau'n gyson â gwaith adrodd thematig blaenorol yn 2023, ac roedd nifer yr Adolygiadau Ymarfer Plant fesul Bwrdd yn amrywio o 3 i 5. Cafodd y nifer uchaf o Adolygiadau Ymarfer Plant ei chofnodi yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru, Cwm Taf, a Chaerdydd a'r Fro (n = 5 yr un). Cyfrannodd Gwent n = 4 o Adolygiadau Ymarfer Plant, a chyfrannodd Gogledd Cymru a Gorllewin Morgannwg n = 3 o Adolygiadau Ymarfer Plant yr un yn ystod y cyfnod.

**Ffigur 1. Nifer yr Adolygiadau Ymarfer Plant ar draws y Byrddau Diogelu Rhanbarthol**




Roedd hanner yr Adolygiadau Ymarfer Plant a gynhaliwyd yn rhai Estynedig (n = 12; 50%) ac roedd eu hanner yn rhai Cryno (n = 12; 50%). Mae'r rhaniad cyfartal hwn yn awgrymu bod cyfran eithaf mawr o achosion yn y sampl fach hon yn ymwneud â phlant a oedd eisoes yn destun ymwneud statudol (e.e. eisoes ar y gofrestr amddiffyn plant a/neu wedi cael statws derbyn gofal) yn ystod y chwe mis cyn y digwyddiad blaen (yn unol â'r meini prawf ar gyfer Adolygiadau Ymarfer Plant Estynedig).

Roedd y digwyddiadau a gofnodwyd yn yr Adolygiadau Ymarfer Plant yn dyddio o'r cyfnod rhwng 2018 a 2023, ac roeddent yn adlewyrchu digwyddiadau ac adolygiadau diweddarach a gwblhawyd dros gyfnod hirach. Fel sy'n wir am adolygiadau thematig blaenorol, dylai amrywiadau mewn amseroedd cwblhau adolygiadau a phwyntiau cyhoeddi gael eu hystyried wrth ddehongli'r tueddiadau hyn.

## 3.1. Ffactorau risg: Nodweddion plant a theuluoedd blaen

### 3.1.1. Difrifoldeb y niwed a'r math o niwed

Ar draws y 24 o Adolygiadau Ymarfer Plant, roedd 15 o achosion yn ymwneud â marwolaeth plentyn (62.5%), ac roedd 9 o achosion yn ymwneud â niwed sylweddol anangheuol (37.5%). Mae'r canfyddiad hwn yn parhau i ddangos bod Adolygiadau Ymarfer Plant yn adlewyrchu i raddau helaeth y canlyniadau mwyaf difrifol i blant a'u bod, felly, yn darparu cyfle pwysig (er nad yw'n gynrychiadol) i archwilio sefyllfaoedd lle gwnaeth niwed ddwysáu er gwaethaf ymwneud gweithwyr proffesiynol.

**Tabl 1. Difrifoldeb a gofnodwyd o ran y canlyniad**

| Canlyniad | Amlder (n) | Canran (%) |
|---|---|---|
| Marwolaeth plentyn | 15 | 62.5 |
| Niwed sylweddol anangheuol | 9 | 37.5 |
| **Cyfanswm** | **24** | **100** |

Wrth archwilio'r math o niwed a gofnodwyd mewn Adolygiadau Ymarfer Plant, camdriniaeth gorfforol (angheuol ac anangheuol wedi'u cyfuno) a niwed yn ymwneud ag iechyd[1] oedd y categorïau mwyaf mynych, ac roedd gan y ddau gategori bum achos yr un (20.8%).

Hunanladdiad oedd y digwyddiad a gofnodwyd fwyaf wedyn, ac roedd yn ymddangos mewn pedwar Adolygiad Ymarfer Plant (16.7%). Roedd yr achosion hynny'n ymwneud yn bennaf â phobl ifanc, ond roedd un achos yn ymwneud â phlentyn iau (9 oed), sy'n adlewyrchu amlygrwydd cynyddol afiechyd meddwl mewn Adolygiadau Ymarfer Plant. Yr hyn sy'n ddiddorol – o gymharu ag adolygiad thematig 2023, lle hunanladdiad oedd y categori unigol mwyaf o niwed – yw bod y garfan gyfredol yn adlewyrchu proffil risg mwy gwastad. Er na ellir llunio unrhyw gymariaethau uniongyrchol, o gofio maint bach y sampl o adolygiadau (n = 24), mae'r canfyddiadau yn dangos yn gyson bod esgeulustod cronig, niwed corfforol, a ffactorau risg yn ymwneud ag iechyd yn parhau'n bryder amlwg mewn adolygiadau diogelu.

Nodwyd mai camdriniaeth rywiol oedd y prif niwed mewn tri Adolygiad Ymarfer Plant (12.5%), a oedd yn cynnwys camdriniaeth a ddigwyddodd yng nghartref y teulu (n = 1) ac yng nghyd-destun gofal (n = 2). Roedd dau Adolygiad Ymarfer Plant arall (8.3%) yn cynnwys niwed a oedd yn ymwneud â chamfanteisio (camfanteisio'n rhywiol a/neu'n droseddol ar blentyn).

Roedd dau Adolygiad Ymarfer Plant (8.3%) yn ymwneud â boddi, a digwyddodd y ddau ddigwyddiad yng nghyd-destun goruchwyliaeth/esgeulustod. At hynny, roedd un Adolygiad Ymarfer Plant (4.2%) yn ymwneud â Marwolaeth Annisgwyl Sydyn mewn Babandod a oedd yn gysylltiedig ag arferion cysgu anniogel ar ôl i riant/rhieni feddwi. Yn olaf, roedd dau Adolygiad Ymarfer Plant (8.3%) yn canolbwyntio ar esgeulustod cronig a niwed cronnol a arweiniodd at amhariad sylweddol ond nid at farwolaeth.

**Tabl 2. Y math trechaf o niwed a gofnodwyd**

| Y niwed trechaf a ddarganfuwyd* | Amlder (n) | Canran (%) |
|---|---|---|
| Camdriniaeth gorfforol (angheuol ac anangheuol) | 5 | 20.8 |
| Niwed yn ymwneud ag iechyd | 5 | 20.8 |
| Hunanladdiad | 4 | 16.7 |
| Camdriniaeth rywiol | 3 | 12.5 |
| Niwed yn ymwneud â chamfanteisio (camfanteisio'n rhywiol/troseddol ar blentyn) | 2 | 8.3 |
| Boddi (yng nghyd-destun goruchwyliaeth) | 2 | 8.3 |
| Esgeulustod cronig/Niwed cronnol (anangheuol) | 2 | 8.3 |
| Marwolaeth Annisgwyl Sydyn mewn Babandod/ Cysgu anniogel | 1 | 4.2 |
| **Total** | **24** | **100** |

**Noder: mae'r categorïau yn adlewyrchu'r thema drechaf a nodwyd o ran niwed; roedd rhai o'r Adolygiadau Ymarfer Plant yn cynnwys mwy nag un math o niwed, felly dewiswyd y math amlycaf/trechaf o niwed a arweiniodd at yr adolygiad.*

### 3.1.2. Oedran a rhywedd

Roedd oedran y plant yn amrywio o 5 wythnos oed i 17 mlwydd oed. Roedd 16.7% (n = 4) o'r Adolygiadau Ymarfer Plant yn ymwneud â babanod dan 1 oed, a phlant 1 - 4 oed oedd 12.5% (n = 3) o'r achosion. Plant 5 - 12 oed oedd 25% (n = 6) o'r achosion. Roedd y gyfran fwyaf o Adolygiadau Ymarfer Plant yn ymwneud â phobl ifanc 13 - 17 oed, sef 45.8% (n = 11) o'r achosion.

Roedd achosion a oedd yn ymwneud â babanod a phlant iau yn gysylltiedig gan amlaf â chamdriniaeth gorfforol, niwed yn ymwneud ag iechyd, boddi, cysgu anniogel, ac esgeulustod cronig yn amgylchedd y cartref. Ar y llaw arall, roedd achosion a oedd yn ymwneud â phobl ifanc yn adlewyrchu agweddau ar natur hunanladdiad, camfanteisio, ansefydlogrwydd lleoliadau, a ffactorau risg cymhleth o ran emosiynau ac ymddygiad.

**Tabl 3. Oedran a gofnodwyd ar gyfer y plentyn**

| Categori oedran | Amlder (n) | Canran (%) |
|---|---|---|
| Dan 1 oed | 4 | 16.7 |
| 1 – 4 oed | 3 | 12.5 |
| 5 – 12 oed | 6 | 25.0 |
| 13 – 17 oed | 11 | 45.8 |
| **Cyfanswm** | **24** | **100** |

[1] Niwed yn ymwneud ag iechyd: roedd cyfran o'r Adolygiadau Ymarfer Plant a adolygwyd yn sôn am gyflyrau neu anghenion meddygol a allai fod wedi bod yn berthnasol i'r canlyniad, weithiau ar y cyd â ffactorau gwaethygu eraill. Fodd bynnag, roedd y rheini'n amrywiol eu natur ac nid oedd yn bosibl asesu/gwirio eu harwyddocâd i debygolrwydd y niwed a ddioddefwyd.

O ran rhywedd y plant, roedd ychydig dros hanner yr Adolygiadau Ymarfer Plant yn ymwneud â phlant benywaidd (54.1%, n = 13), ac roedd 37.5% (n = 9) yn ymwneud â phlant gwrywaidd. Roedd un Adolygiad Ymarfer Plant (4.2%) yn ymwneud â sawl plentyn yr oedd eu rhywedd yn gymysg, ac mewn un achos (4.2%) ni chafodd rhywedd y plentyn ei nodi'n glir yn yr adroddiad a gyhoeddwyd. O gymharu ag adolygiad 2023, lle'r oedd dosbarthiad o ran rhywedd yn wastad ar y cyfan ymhlith yr achosion lle cafodd y wybodaeth honno ei chofnodi, mae'r gyfres gyfredol o Adolygiadau Ymarfer Plant yn dangos bod yna ychydig yn fwy o blant benywaidd nag o blant gwrywaidd.

**Tabl 4. Rhywedd a gofnodwyd ar gyfer y plentyn**

| Rhywedd | Amlder (n) | Canran (%) |
|---|---|---|
| Benywaidd | 13 | 54.1 |
| Gwrywaidd | 9 | 37.5 |
| Cymysg (Gwrywaidd/Benywaidd) | 1 | 4.2 |
| Anhysbys | 1 | 4.2 |
| **Cyfanswm** | **24** | **100** |

### 3.1.3. Brodyr a chwiorydd a'r aelwyd

Wrth ystyried natur yr aelwydydd, cofnododd bron bob un o'r Adolygiadau Ymarfer Plant fod o leiaf un brawd neu chwaer yn bresennol (91.6%, n = 22). Roedd mwyafrif yr Adolygiadau Ymarfer Plant yn ymwneud â phlant a oedd yn byw mewn aelwydydd mwy o faint, a chofnododd 19 o'r adolygiadau (79.2%) fod tri neu fwy o blant yn y cartref. Nodwyd cydberthnasau cymysg neu gydberthnasau nad oeddent yn rhai biolegol rhwng brodyr a chwiorydd (gan gynnwys hanner brodyr a hanner chwiorydd) mewn chwe Adolygiad Ymarfer Plant (16.7%). Mewn un adolygiad (4.2%), nid oedd natur yr aelwyd yn glir.

**Tabl 5. Cyfansoddiad a gofnodwyd o ran brodyr a chwiorydd a'r aelwyd**

| Dangosydd o ran yr aelwyd / brodyr a chwiorydd | Amlder (n) | Canran (%)* |
|---|---|---|
| Mwy nag un plentyn | 22 | 91.6 |
| 3+ o blant | 19 | 79.2 |
| Cydberthynas nad yw'n un fiolegol / cydberthynas gymysg â brodyr a chwiorydd | 6 | 25 |
| Yn aneglur yn yr adolygiad | 1 | 4.2 |

*Noder*: Nid yw'r adolygiadau'n perthyn i un yn unig o'r categorïau hyn. Roedd sawl Adolygiad Ymarfer Plant yn bodloni mwy nag un o'r meini prawf, felly ni ddylid barnu yma bod y canrannau'n rhai cronnol.*

### 3.1.4. Ffactorau risg a gofnodwyd ar gyfer y rhieni/gofalwyr

Afiechyd meddwl oedd y ffactor risg a gofnodwyd amlaf, ac roedd yn bresennol yn 16 o'r Adolygiadau Ymarfer Plant (66.7%). Roedd yn cynnwys cyflyrau a oedd wedi'u diagnosio, triniaeth barhaus, ansefydlogrwydd emosiynol, hanes o ran trawma, ac anawsterau iechyd meddwl heb eu trin / a oedd yn amrywio.

Cafodd camdriniaeth ddomestig ei chofnodi yn 15 o'r Adolygiadau Ymarfer Plant (62.5%), naill ai fel trais cyfredol gan bartner agos, rheolaeth drwy orfodaeth, patrymau cam-drin hanesyddol, neu gysylltiad plant â chydberthnasau lle'r oedd camdriniaeth yn digwydd. Cafodd camddefnyddio sylweddau ei nodi yn 11 o'r Adolygiadau Ymarfer Plant (45.8%), a gan amlaf roedd yn ymwneud â defnyddio alcohol a/neu ganabis.

At hynny, roedd amodau esgeulus yn y cartref yn amlwg yn 14 o'r Adolygiadau Ymarfer Plant (58.3%), ac roeddent yn aml yn gysylltiedig ag anhrefn cronig, amgylcheddau byw anniogel, pryderon am hylendid, apwyntiadau iechyd a gollwyd, neu ofal anghyson. Mewn llawer o achosion, roedd y pryderon amgylcheddol hynny'n cyd-daro ag afiechyd meddwl a chamdriniaeth ddomestig, a oedd yn atgyfnerthu patrymau niwed cronnol yn hytrach na digwyddiadau diogelu unigol.

**Ffigur 2. Dangosyddion o ran ffactorau risg a gofnodwyd ar gyfer rhieni / gofalwyr**



## 3.2. Ymwybyddiaeth ac ymwneud asiantaethau

Roedd lefelau ymwybyddiaeth asiantaethau cyn y digwyddiad yn uchel. Roedd hanner yr Adolygiadau Ymarfer Plant (n = 12; 50%) yn ymwneud â phlant a oedd naill ai ar y gofrestr amddiffyn plant neu a oedd wedi cael statws derbyn gofal (a oedd yn adlewyrchu'r meini prawf ar gyfer Adolygiad Estynedig). Roedd mwyafrif y plant/teuluoedd eisoes yn hysbys i wasanaethau plant rywbryd cyn y digwyddiad (n = 22; 91.7%). Dim ond dau Adolygiad Ymarfer Plant a nododd fod y plentyn/teulu'n anhysbys i asiantaethau diogelu statudol.

Cofnododd bron hanner yr Adolygiadau Ymarfer Plant (n = 11; 45.8%) o leiaf un atgyfeiriad i wasanaethau plant, nad oedd yn cyrraedd y trothwy ar gyfer ymyrraeth statudol. Mae hynny'n adleisio themâu a nodwyd yn 2023, a oedd yn ymwneud â'r risg o fethu â sylwi ar niwed cronnol pan gaiff digwyddiadau eu hasesu ar wahân i'w gilydd.

**Tabl 6. Hanes o ran Gwasanaethau Plant a'r trothwy ar gyfer atgyfeiriadau**

| Dangosydd | Amlder (n) | Canran (%) * |
|---|---|---|
| Plentyn ar y gofrestr amddiffyn plant a/neu'n derbyn gofal (adeg y digwyddiad/yn agos i'r digwyddiad) | 12 | 50.0 |
| Yn hysbys rywbryd i Wasanaethau Plant | 22 | 91.7 |
| Yn anhysbys i asiantaethau diogelu statudol | 2 | 8.3 |
| Cofnodwyd bod yr atgyfeiriad islaw'r trothwy | 11 | 45.8 |

*Noder*: Nid yw'r adolygiadau'n perthyn i un yn unig o'r categorïau hyn. Roedd sawl Adolygiad Ymarfer Plant yn bodloni mwy nag un o'r meini prawf, felly ni ddylid barnu yma bod y canrannau'n rhai cronnol.*

At hynny, fel rheol, roedd mwy nag un asiantaeth yn ymwneud â phob teulu cyn y digwyddiad. Roedd gwasanaethau iechyd yn ymwneud â 22 o'r 24 o Adolygiadau Ymarfer Plant (91.7%), roedd yr heddlu'n ymwneud â 21 ohonynt (87.5%) ac roedd gwasanaethau addysg yn ymwneud ag 18 (75%). Fodd bynnag, mewn modd sy'n gyson â'r adolygiad thematig blaenorol, nid oedd presenoldeb mwy nag un asiantaeth o reidrwydd yn golygu perchnogaeth gydgysylltiedig ar risg.

**Tabl 7. Asiantaethau/Sefydliadau y cofnodwyd eu bod wedi ymgysylltu â'r plentyn/teulu cyn y digwyddiad**

| Asiantaeth | Amlder (n) | Canran (%) * |
|---|---|---|
| Iechyd | 22 | 91.7 |
| Heddlu | 21 | 87.5 |
| Addysg | 18 | 75.0 |

*Noder*: Nid yw'r adolygiadau'n perthyn i un yn unig o'r categorïau hyn. Roedd sawl Adolygiad Ymarfer Plant yn bodloni mwy nag un o'r meini prawf, felly ni ddylid barnu yma bod y canrannau'n rhai cronnol.*



## 3.3. Amlygrwydd y plentyn

Cafodd gwaith dadansoddi disgrifiadol pellach ei gyflawni hefyd ar draws pob un o'r 24 o Adolygiadau Ymarfer Plant er mwyn archwilio pa mor glir yr oedd profiad go iawn y plentyn yn cael ei gyfleu yn yr adolygiad a'r argymhellion. Cafodd pob newidyn ei godio fel newidyn 'presennol' neu 'absennol' ar sail tystiolaeth benodol yn yr adroddiad a gyhoeddwyd.

### 3.3.1. Amlygrwydd llais y plentyn

Ar draws yr Adolygiadau Ymarfer Plant, prin oedd y cyfeiriadau uniongyrchol at ddymuniadau, teimladau neu safbwyntiau'r plentyn ynghylch ei brofiad go iawn. Roedd llai na hanner yr adolygiadau (n = 11, 45.8%) yn cynnwys yn y naratif gyfeiriad clir / penodol at lais y plentyn. Yr hyn oedd yn fwy trawiadol fyth oedd mai dim ond un adolygiad (4.2%) oedd yn darparu tystiolaeth benodol bod safbwyntiau'r plentyn neu'r person ifanc wedi cyfrannu'n uniongyrchol at ddylanwadu ar benderfyniadau diogelu.

Cydnabyddir y gall dehongliad adolygwyr o beth yw cyfeiriad "penodol" fod yn wahanol. Yn yr adolygiad hwn, diffiniad yr adolygwyr o "penodol" oedd tystiolaeth glir y gellir ei hadnabod yn yr Adolygiadau Ymarfer Plant, lle cafodd dymuniadau, teimladau neu brofiad go iawn y plentyn eu cyflwyno'n uniongyrchol yn hytrach na'u casglu drwy waith dehongli proffesiynol. Er bod pob un o'r Adolygiadau Ymarfer Plant (n = 24) yn cynnwys rhyw fath o gyfeiriad anuniongyrchol at brofiad go iawn y plentyn, roedd y dadansoddiad hwn yn canolbwyntio ar enghreifftiau lle'r oedd llais y plentyn yn amlwg mewn modd clir ac uniongyrchol.

**Tabl 8. Amlygrwydd llais y plentyn mewn Adolygiadau Ymarfer Plant**

| Dangosydd o ran llais y plentyn | Amlder (n) | Canran (%)* |
|---|---|---|
| Cyfeiriad amlwg/penodol at lais y plentyn | 11 | 45.8 |
| Tystiolaeth amlwg/penodol bod safbwynt y plentyn wedi chwarae rôl o ran dylanwadu ar benderfyniad diogelu | 1 | 4.2 |

*Noder: Nid yw'r adolygiadau'n perthyn i un yn unig o'r categorïau hyn ac nid yw'r symiau yn dod i gyfanswm nifer yr Adolygiadau Ymarfer Plant (n = 24), oherwydd nid oedd pob adolygiad yn cynnwys tystiolaeth amlwg o lais y plentyn.*

### 3.3.2. Argymhellion ynghylch profiad go iawn y plentyn

Roedd hanner yr Adolygiadau Ymarfer Plant (n = 12; 50%) yn cynnwys argymhellion yr oedd modd eu hadnabod yn glir ac a oedd yn pwysleisio pwysigrwydd clywed a chydnabod profiad go iawn y plentyn a chlywed a chydnabod ei safbwyntiau. Fodd bynnag, nid oedd hynny bob amser yn cael ei adlewyrchu ym mhrif gorff yr adroddiadau. Mewn sawl achos, cafodd argymhellion am wella llais y plentyn eu gwneud er gwaetha'r dystiolaeth gyfyngedig ym mhrif gorff yr adroddiad i ddangos bod safbwynt y plentyn wedi'i gofnodi a/neu'i ystyried yn glir.

Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi nad oes gan Adolygiadau Ymarfer Plant strwythur cyson ac nad yw pob adolygiad yn cynnwys adran 'argymhellion' sydd â theitl ffurfiol. Mae rhai adolygiadau'n cyflwyno'r dysgu mewn adran "pwyntiau dysgu" neu "meysydd ar gyfer gwella" yn hytrach nag mewn adran "argymhellion" ffurfiol. Pan gaiff argymhellion a phwyntiau dysgu eu hystyried gyda'i gilydd, mae nifer yr Adolygiadau Ymarfer Plant sy'n cyfeirio at bwysigrwydd llais y plentyn yn codi i 15 allan o'r 24 o Adolygiadau Ymarfer Plant (62.5%).

**Tabl 9. Argymhellion a phwyntiau dysgu'n ymwneud â llais y plentyn**

| Dangosydd o ran dysgu/argymhellion sy'n ymwneud â llais y plentyn | Amlder (n) | Canran (%)* |
|---|---|---|
| Argymhellion sy'n ymwneud â llais y plentyn | 12 | 50.0 |
| Argymhellion neu bwynt dysgu sy'n ymwneud â llais y plentyn | 15 | 62.5 |

*Noder: Nid oes gan Adolygiadau Ymarfer Plant strwythur cyson. Mae rhai adolygiadau'n cyflwyno'r dysgu mewn "pwyntiau dysgu" yn hytrach nag mewn adran "argymhellion" ffurfiol. Mae'r ganran yn seiliedig ar gyfanswm nifer yr Adolygiadau Ymarfer Plant (n = 24). Nid yw'r adolygiadau'n perthyn i un yn unig o'r categorïau hyn.*

### 3.3.3. Eiriolaeth a hyrwyddo'r plentyn

Ar draws y 24 o Adolygiadau Ymarfer Plant, roedd chwarter yr adolygiadau (25%) yn cyfeirio at bresenoldeb eiriolwr, hyrwyddwr, neu oedolyn y gellir ymddiried ynddo ym mywyd y plentyn. Fodd bynnag, prin y câi'r rolau hynny eu disgrifio fel rolau a oedd yn ymwneud yn weithredol â phrosesau gwneud penderfyniadau am ddiogelu, neu a oedd yn amlwg yn rhan annatod o waith cynllunio amlasiantaethol. Yn y rhan fwyaf o achosion, câi eiriolaeth ei chrybwyll yn gryno yn y naratif yn hytrach na'i bod yn elfen weithredol o ymatebion diogelu.

Mae Adolygiadau Ymarfer Plant Estynedig yn ymwneud ag achosion lle'r oedd y plentyn naill ai ar y gofrestr amddiffyn plant neu'n blentyn a oedd yn derbyn gofal yn ystod y chwe mis cyn y digwyddiad, sy'n golygu y dylai eiriolaeth annibynnol gael ei chynnig fel rheol yn rhan o drefniadau diogelu statudol yn rhan o'r cynnig rhagweithiol[2]. Fodd bynnag, o blith yr Adolygiadau Ymarfer Plant Estynedig a adolygwyd (n = 12), dim ond pedwar adolygiad (33.3%) oedd yn cynnwys unrhyw gyfeiriad at gymorth o ran eiriolaeth. Ym mwyafrif yr achosion hynny, roedd y cyfeiriad yn un cryno ac nid oedd yn disgrifio'n glir rôl yr eiriolwr o safbwynt cyfrannu i benderfyniadau neu drafodaethau diogelu. Dim ond un Adolygiad Ymarfer Plant oedd yn darparu tystiolaeth glir bod eiriolwr wedi ymwneud yn weithredol â chynorthwyo'r person ifanc i benderfynu aros mewn lleoliad, a'i gynorthwyo hefyd i gyfrannu i'w gyfarfodydd adolygu.

Roedd un adolygiad hefyd yn cyfeirio at ran gwarcheidwad Gwasanaeth Cynghori a Chynorthwyo Llys i Blant a Theuluoedd (CAFCASS) mewn trafodion. Yn yr wyth o Adolygiadau Ymarfer Plant Estynedig sy'n weddill (66.7%), nid oedd unrhyw gyfeiriad penodol at eiriolaeth nac at b'un a oedd eiriolaeth wedi cael ei chynnig neu'i derbyn. Nid yw'r canfyddiad hwn yn dangos o reidrwydd bod eiriolaeth yn absennol; yn hytrach, mae'n dangos nad yw'r graddau y caiff eiriolaeth ei chynnig a'i derbyn, ac nad yw tryloywder eiriolaeth, yn amlwg yn gyson mewn Adolygiadau Ymarfer Plant.

**Tabl 10. Eiriolaeth a hyrwyddo'r plentyn mewn Adolygiadau Ymarfer Plant**

| Dangosydd o ran eiriolaeth/hyrwyddo | Amlder (n) | Canran (%)* |
|---|---|---|
| Cyfeiriad at eiriolaeth a hyrwyddo **(Ar draws pob Adolygiad Ymarfer Plant)** | 6 | 25.0 |
| Cyfeiriad at eiriolaeth **(Adolygiadau Ymarfer Plant Estynedig yn unig, n = 12)** | 4 | 33.0 |
| Tystiolaeth glir o gynnwys eiriolwr wrth wneud penderfyniadau **(Adolygiadau Ymarfer Plant Estynedig yn unig, n = 12)** | 1 | 8.3 |
| Cyfeiriad penodol at warcheidwad CAFCASS **(Adolygiadau Ymarfer Plant Estynedig yn unig, n = 12)** | 1 | 8.3 |
| Dim cyfeiriad at eiriolaeth **(Adolygiadau Ymarfer Plant Estynedig yn unig, n = 12)** | 8 | 66.7 |

*Noder: Nid yw'r adolygiadau'n perthyn i un yn unig o'r categorïau hyn. Caiff y canrannau ar gyfer Adolygiadau Ymarfer Plant Estynedig eu cyfrifo o n = 12, tra mae'r ffigurau cyffredinol yn seiliedig ar n = 24.*

### 3.3.4. Ansefydlogrwydd y gweithlu

Nodwyd yn saith o'r 24 o Adolygiadau Ymarfer Plant (29.2%) bod ansefydlogrwydd y gweithlu'n ffactor cyfrannol a oedd yn effeithio ar ymarfer diogelu, er nad oedd ffactorau'n ymwneud â'r gweithlu yn cael eu cofnodi fel mater o drefn ar draws mwyafrif yr adolygiadau. Yn yr achosion hynny, roedd yr adolygiadau'n cyfeirio at newid gweithiwr cymdeithasol sawl gwaith, at ddiffyg parhad o ran gweithwyr proffesiynol arweiniol, at bwysau ar gapasiti, neu at drosiant staff yn effeithio ar gydberthnasau gweithio, ansawdd asesiadau neu'r modd y câi pryderon eu huwchgyfeirio. Gall hynny effeithio ar ymarfer perthynol ac ar barhad i feithrin cydberthnasau llawn ymddiriedaeth.

### 3.3.5. Y broses ymgynghori: cynnwys teuluoedd a gofalwyr

Nododd mwyafrif yr Adolygiadau Ymarfer Plant (91.7%) fod rhieni, gofalwyr a/neu aelodau'r teulu wedi'u cynnwys mewn gwaith ymgynghori yn rhan o'r broses adolygu. Câi hynny ei gofnodi fel rheol yn adran yr Adolygiad Ymarfer Plant ynghylch y broses adolygu, a hynny'n aml gan ddefnyddio geiriad wedi'i safoni a oedd yn cadarnhau bod aelodau'r teulu wedi cael gwybod, y gofynnwyd am eu safbwyntiau, a bod adborth wedi'i ddarparu. Fodd bynnag, er bod llawer o sôn am ymgynghori, roedd eglurder ac amlygrwydd yr ymgysylltu hwnnw yn fformat yr Adolygiad Ymarfer Plant yn amrywio.

Dim ond 10 o'r Adolygiadau Ymarfer Plant (41.7%) a oedd yn cynnwys crynodebau hawdd eu hadnabod o'r hyn yr oedd y rhieni neu'r bobl ifanc wedi'i ddweud, neu a oedd yn dangos sut yr oedd eu myfyrdodau wedi'u hystyried wrth ddadansoddi. Yn yr adroddiadau hynny, gallai'r darllenydd weld yn glir sut yr oedd safbwyntiau teuluoedd wedi cyfrannu i'r dysgu. Roedd y modd y câi'r wybodaeth honno ei chyflwyno'n amrywio. Er enghraifft, roedd rhai o'r Adolygiadau Ymarfer Plant yn cynnwys adran lle'r oedd safbwynt ar brofiad go iawn yn cael ei ddangos ochr yn ochr â gwahanol bwyntiau dysgu. Mewn adolygiadau eraill, roedd y cyfraniad ynghylch profiad go iawn yn fwy cryno a chyffredinol ac yn bresennol mewn un adran yn yr Adolygiad Ymarfer Plant.

[2] Datganiad Ysgrifenedig: Dull Cenedlaethol ar gyfer Eiriolaeth Statudol i Blant a Phobl Ifanc (15 Gorffennaf 2022) | LLYW.CYMRU

Ar y llaw arall, cofnododd 12 o'r Adolygiadau Ymarfer Plant (50%) fod ymgynghori wedi digwydd ond ni wnaethant amlygu cynnwys yr ymgynghori hwnnw yn yr adroddiad. Câi ymgysylltu ei nodi mewn modd gweithdrefnol, ond heb esboniad clir ynghylch beth a gyfrannwyd neu sut y gwnaeth y cyfraniad ddylanwadu ar y canfyddiadau. Cofnododd pedwar Adolygiad Ymarfer Plant arall (16.7%) fod ymgynghori wedi'i gynnig ond wedi'i wrthod, ac ni wnaeth dau Adolygiad Ymarfer Plant (8.3%) unrhyw gyfeiriad o gwbl at ymgynghori.

**Tabl 11. Ymgynghori â theuluoedd a gofalwyr mewn Adolygiadau Ymarfer Plant**

| Dangosydd o ran ymgynghori | Amlder (n) | Canran (%)* |
|---|---|---|
| Ymgynghori wedi'i gofnodi (ar unrhyw ffurf) | 22 | 91.7 |
| Safbwyntiau'r teulu yn amlwg yn yr Adolygiad Ymarfer Plant | 10 | 41.7 |
| Ymgynghori wedi'i gofnodi ond ddim yn amlwg yn yr adroddiad | 12 | 50.0 |
| Ymgynghori wedi'i gynnig ond wedi'i wrthod | 4 | 16.7 |
| Dim cyfeiriad at ymgynghori | 2 | 8.3 |

*Noder: Nid yw'r adolygiadau'n perthyn i un yn unig o'r categorïau hyn. Gwnaeth rhai o'r Adolygiadau Ymarfer Plant gofnodi ymgynghori, ond ni wnaethant amlygu cynnwys yr ymgynghori hwnnw yn yr adroddiad.*

## 3.4. Dadansoddi archwiliol pellach

Yn ogystal â gwaith dadansoddi disgrifiadol, cafodd gwaith profi ystadegol archwiliol ei gyflawni hefyd er mwyn ystyried a oedd yna gysylltiadau ystyrlon rhwng newidynnau allweddol yn ymwneud â llais y plentyn ac eiriolaeth yn yr Adolygiadau Ymarfer Plant. O gofio maint bach y sampl (n = 24), cafodd Prawf Union Fisher ei ddefnyddio oherwydd ei fod yn briodol ar gyfer setiau data bach. Cafodd y newidynnau a gafodd eu cynnwys yn y gwaith dadansoddi eu codio fel dangosyddion deuaidd (presennol/absennol) ar sail tystiolaeth benodol yn yr Adolygiadau Ymarfer Plant (e.e. a oedd llais y plentyn yn amlwg yn y naratif, ac a gafodd hyrwyddwr neu eiriolwr ei nodi). Fodd bynnag, dylid bod yn ofalus dros ben wrth ddehongli'r canfyddiadau, o gofio maint bach y sampl a oedd ar gael i'r tîm ymchwilio. Dylai ymchwil bellach geisio darparu setiau data mwy o faint er mwyn dilysu'r canfyddiadau hyn.

### 3.4.1. Cysylltiad rhwng llais y plentyn mewn Adolygiadau Ymarfer Plant ac argymhellion ynghylch llais y plentyn

I ddechrau, bu'r gwaith dadansoddi yn ystyried a oedd yna berthynas rhwng pa mor glir yr oedd llais y plentyn yn cael ei gyflwyno yng nghorff yr Adolygiad Ymarfer Plant ac a oedd yr adolygiad yn gwneud argymhellion ynghylch cryfhau ymarfer sy'n canolbwyntio ar y plentyn. Nododd Prawf Union Fisher gysylltiad arwyddocaol o safbwynt ystadegol (p = .012), yr oedd maint ei effaith yn fawr (Phi = .585). Yn ymarferol, yn hytrach na dangos diffyg cysylltiad, mae'r patrwm hwn mewn gwirionedd yn awgrymu y gallai fod yna glystyrau o ymarfer sy'n canolbwyntio ar y plentyn.

**Roedd Adolygiadau Ymarfer Plant a oedd yn amlwg yn gweithredu dymuniadau, teimladau neu brofiad go iawn y plentyn yn y naratif yn fwy tebygol o lawer o gynnwys argymhellion a oedd yn atgyfnerthu pwysigrwydd clywed llais y plentyn ac ymateb iddo hefyd. Ar y llaw arall, roedd yn golygu hefyd, os oedd llais y plentyn yn llai amlwg yn yr Adolygiad Ymarfer Plant, ei fod hefyd yn llai tebygol o ymddangos yn y dysgu a gâi ei nodi.**

### 3.4.2. Cysylltiad rhwng presenoldeb hyrwyddwr mewn Adolygiadau Ymarfer Plant a phresenoldeb llais y plentyn

At hynny, bu gwaith dadansoddi pellach yn archwilio a oedd yna berthynas rhwng presenoldeb hyrwyddwr neu eiriolwr yn yr Adolygiad Ymarfer Plant a pha mor glir yr oedd llais y plentyn yn cael ei adlewyrchu yn yr Adolygiad Ymarfer Plant. Nodwyd cysylltiad arwyddocaol o safbwynt ystadegol (p = .014), yr oedd maint ei effaith yn fawr (Phi = .577). Mae'r patrwm yn y fan hon yn nodedig.

**Ym mhob Adolygiad Ymarfer Plant lle cofnodwyd bod hyrwyddwr yn bresennol, roedd llais y plentyn wedi'i integreiddio yn amlwg yn yr Adolygiad Ymarfer Plant (100%). Ar y llaw arall, lle na chafodd hyrwyddwr ei nodi, nid oedd llais y plentyn yn amlwg ond yn un o bob tri adolygiad (33.3%).**

Er nad yw hynny'n golygu bod presenoldeb hyrwyddwr yn arwain yn uniongyrchol at gynrychiolaeth gryfach i lais y plentyn, mae'n awgrymu, os oes gan blentyn eiriolwr penodol neu oedolyn y gellir ymddiried ynddo a gydnabyddir yn rhan o'r broses adolygu, bod profiad go iawn y plentyn yn fwy tebygol o gael ei adlewyrchu'n glir mewn Adolygiadau Ymarfer Plant.

## 3.5. Crynodeb o'r gwaith dadansoddi disgrifiadol

Ar draws yr Adolygiadau Ymarfer Plant a ddadansoddwyd, mae darlun cyson yn ymddangos o blant a theuluoedd sydd dros gyfnod o amser yn profi ffactorau risg lluosog sy'n gorgyffwrdd â'i gilydd. Prin yr oedd risg yn gysylltiedig ag un digwyddiad yn unig. Yn hytrach, roedd niwed yn adlewyrchu'n amlach batrymau cronnol a oedd yn cynnwys esgeulustod cronig, camdriniaeth ddomestig, afiechyd meddwl rhiant/rhieni a chamddefnyddio sylweddau. Yn aml, roedd y ffactorau hynny'n cyd-ddigwydd ac yn creu cyd-destunau cymhleth a oedd yn esblygu, lle'r oedd risg yn cynyddu'n raddol yn hytrach na'i bod yn ysgogi ymyrraeth yn syth. Er bod y patrwm hwn yn arbennig o amlwg mewn achosion a oedd yn ymwneud â phlant iau, mae'r data hefyd yn tynnu sylw at gyfran sylweddol o bobl ifanc, gyda lefelau cynyddol amlwg o bryderon am iechyd meddwl, hunan-niwed a chamfanteisio.

Roedd ymwybyddiaeth asiantaethau cyn y digwyddiad blaen yn uchel. Roedd mwyafrif y plant a'r teuluoedd yn hysbys i wasanaethau, dros gyfnodau estynedig yn aml ac ar draws sawl asiantaeth, a oedd yn cynnwys gwasanaethau iechyd, yr heddlu a gwasanaethau addysg. Fodd bynnag, nid oedd yr ymwybyddiaeth honno bob amser yn troi'n weithredu cydgysylltiedig neu'n berchnogaeth ar y cyd ar risg. Roedd cyfran nodedig o achosion yn ymwneud ag atgyfeiriadau nad oeddent yn cyrraedd trothwyau statudol, sy'n ategu'r heriau parhaus sy'n gysylltiedig ag adnabod niwed cronnol ac ymateb iddo pan gaiff pryderon eu hasesu ar wahân i'w gilydd.

Mae dadansoddi amlygrwydd llais y plentyn yn dangos bod bwlch sylweddol rhwng cofnodi a'r potensial i ddylanwadu. Er bod rhywfaint o gyfeirio at brofiad go iawn y plentyn yn bresennol ar draws pob adolygiad, roedd llai na hanner yr adolygiadau'n cyfeirio ato'n benodol a dim ond un adolygiad a ddangosodd dystiolaeth glir bod gan safbwynt y plentyn rôl a ddylanwadodd yn uniongyrchol ar benderfyniadau diogelu. Mae patrwm tebyg yn amlwg yng nghyswllt ymgynghori â theuluoedd, lle câi ymgysylltu ei gofnodi'n aml ond lle nad oedd yn amlwg yn gyson neu'n gysylltiedig yn glir â dadansoddi a dysgu. Câi rôl eiriolaeth ei chofnodi'n anghyson hefyd, a phrin oedd yr eglurder ynghylch a gâi eiriolaeth ei chynnig a'i derbyn neu sut yr oedd yn cyfrannu i brosesau diogelu. Mae hynny'n adlewyrchu problem ehangach ar draws Adolygiadau Ymarfer Plant: sef y gwahaniaeth rhwng cofnodi bod rhywbeth wedi digwydd a dangos sut y mae wedi chwarae rôl o safbwynt dylanwadu ar ddadansoddi, gwneud penderfyniadau a dysgu. Mae hynny'n arbennig o amlwg yn y diffyg cysylltiad rhwng argymhellion a thystiolaeth naratif, lle caiff cryfhau llais y plentyn ei nodi'n aml yn flaenoriaeth ond lle na chaiff hynny ei fodelu'n gyson yn yr adolygiad ei hun.

Mae dadansoddi archwiliol yn atgyfnerthu'r canfyddiadau hyn. Roedd Adolygiadau Ymarfer Plant a oedd yn cyfleu llais y plentyn yn gliriach yn fwy tebygol o lawer o gynnwys argymhellion ynghylch ymarfer sy'n canolbwyntio ar y plentyn, sy'n awgrymu clystyrau o ymarfer cryfach yn hytrach na gwaelodlin gyson. Yn ogystal, roedd cysylltiad cryf rhwng presenoldeb hyrwyddwr neu eiriolwr a mwy o amlygrwydd i lais y plentyn yn yr adolygiad, sy'n dangos pwysigrwydd posibl rolau perthynol a chynrychiadol o ran cryfhau diogelu sy'n canolbwyntio ar y plentyn.

Yn gryno, mae'r canfyddiadau hyn yn tynnu sylw at her ganolog mewn systemau diogelu: sef y bwlch rhwng gwybodaeth sy'n hysbys a gwybodaeth sy'n cael ei hintegreiddio'n ystyrlon mewn dealltwriaeth, penderfyniadau a chamau gweithredu. Er bod asiantaethau'n aml yn gallu adnabod a chofnodi risg yn effeithiol, ceir llai o gysondeb o ran sut y caiff profiadau go iawn plant eu deall, eu cysylltu â'i gilydd dros gyfnod o amser, a'u defnyddio i lywio ymatebion diogelu. Mae cryfhau'r cysylltiad hwn rhwng gwybodaeth, dehongli a gweithredu'n parhau yn hollbwysig er mwyn gwella canlyniadau ar gyfer plant.



# 04

# Prif ganfyddiadau ansoddol: Profiad go iawn y plentyn

Cafodd gwaith dadansoddi ansoddol thematig ei gyflawni er mwyn adnabod themâu allweddol o'r data. Bu'r gwaith yn archwilio sut yr oedd safbwyntiau a phrofiad go iawn y plentyn yn cael eu deall a'u cyfleu yn yr Adolygiadau Ymarfer Plant.

**Tabl 12. Themâu ac is-themâu ansoddol**

| | | |
|---|---|---|
| **4.1. Ymarfer diogelu mewn Adolygiadau Ymarfer Plant** | 4.1.1 Cyfleu profiad go iawn y plentyn mewn Adolygiadau Ymarfer Plant | Cyfathrebu'n uniongyrchol â safbwynt y plentyn neu'r rhiant |
| | | Effaith bywyd yn y cartref, iechyd, ffactorau amgylcheddol a gwybodaeth hanesyddol |
| | 4.1.2 Integreiddio safbwynt y plentyn mewn penderfyniadau a chymorth a sicrhau bod ei safbwynt yn ganolog iddynt | Ymarfer perthynol |
| | | Hyrwyddo safbwynt y plentyn |
| | | Cydnabod a dilysu profiadau'r plentyn yn barhaus |
| | | Cydbwyso ymateb diogelu â dymuniadau a theimladau |
| **4.2. Cynnwys y plentyn, y teulu a gofalwyr ym mhroses yr Adolygiad Ymarfer Plant** | 4.2.1 Prif faterion o adborth ynghylch safbwyntiau teuluoedd, pobl ifanc a gofalwyr | |
| | 4.2.2 Pwyntiau dysgu ac argymhellion yn ymwneud â llais a phrofiad y plentyn | |

Nododd y gwaith dadansoddi thematig ddwy brif thema gyda meysydd dilynol i ganolbwyntio arnynt, Yn gyntaf, ymarfer diogelu mewn Adolygiadau Ymarfer Plant, sy'n ystyried sut y cafodd safbwynt a phrofiad go iawn y plentyn eu disgrifio a'u cyfleu yn yr Adolygiadau Ymarfer Plant drwy lens ymarfer. Yn ail, bu'r gwaith dadansoddi'n ystyried fformat yr Adolygiadau Ymarfer Plant eu hunain, a sut yr oedd safbwyntiau a phrofiadau'r plentyn, y rhieni a'r gofalwyr yn cael eu cynnwys ym mhroses yr Adolygiadau Ymarfer Plant ac yn cael eu hymgorffori yn yr adolygiadau eu hunain.



## 4.1. Ymarfer diogelu mewn Adolygiadau Ymarfer Plant

### 4.1.1 Cyfleu profiad go iawn mewn Adolygiadau Ymarfer Plant

Roedd y thema hon yn canolbwyntio ar sut yr oedd safbwyntiau a phrofiadau go iawn plant mewn ymarfer diogelu'n cael eu cyfleu mewn Adolygiadau Ymarfer Plant. O gofio amrywiaeth y plant a oedd wedi'u cynnwys yn yr adolygiadau, nid oedd bob amser yn hawdd i gyfathrebu uniongyrchol ddigwydd rhwng gweithwyr proffesiynol a phlant. Er enghraifft, roedd rhai plant yn fabis ac roedd gan eraill anawsterau cyfathrebu a oedd yn effeithio ar eu gallu i fynegi eu safbwyntiau.

O ganlyniad, bu'r gwaith dadansoddi'n ystyried nid yn unig y cyfathrebu uniongyrchol â'r plentyn ond hefyd sut y gallai cronoleg o fywyd y plentyn, gan gynnwys y cyd-destun teuluol a ffactorau amgylcheddol, daflu goleuni ar ei brofiad go iawn. Roedd hynny'n cynnwys archwilio sut y câi'r ffactorau hyn eu deall ac a oedd eu heffaith yn cael ei hystyried o safbwynt y plentyn.

### Cyfathrebu'n uniongyrchol â'r plentyn

Nid oedd yr Adolygiadau Ymarfer Plant bob amser yn cynnwys tystiolaeth glir o gyfathrebu uniongyrchol, neu ddiffyg cyfathrebu, rhwng y plentyn a gweithwyr proffesiynol. Mewn sawl achos, câi ymgysylltu â'r rhieni ynghylch safbwynt y plentyn flaenoriaeth dros gysylltu'n uniongyrchol â'r plentyn. Er enghraifft, nododd Adolygiad Ymarfer Plant 10 fod cyfeiriadau niferus wedi'u gwneud at feddyliau a theimladau'r plentyn yn ystod galwadau, a bod y ffaith bod sylw wedi'i roi i hynny'n beth da, ond mai dim ond dau gofnod oedd ar gael a oedd yn dangos yn benodol bod rhywun wedi siarad yn uniongyrchol â'r plentyn. Yn yr un modd, disgrifiodd adolygiad arall (Adolygiad Ymarfer Plant 20) sut y cafwyd gwybod beth oedd safbwyntiau'r rhieni, a bod cynllun diogelwch wedi'i ddatblygu, ond na siaradwyd â'r plentyn ac nad oedd y ffaith bod y fam wedi gwrthod gadael i hynny ddigwydd wedi'i herio fel pryder. Roedd hynny'n adlewyrchu dibyniaeth ar adroddiadau rhieni am risg a diogelwch, a rhagdybiaeth ddealledig bod adroddiadau'r rheini yn cyd-fynd â safbwynt y plentyn.

Os oedd Adolygiadau Ymarfer Plant yn dangos tystiolaeth bod dymuniadau a theimladau plant wedi cael eu gwirio, roedd hynny'n cael ei gyfleu'n aml fel peth da. Fodd bynnag, prin oedd y camau i archwilio'r rhesymau sylfaenol dros y safbwyntiau hynny, neu'r ffactorau a oedd yn dylanwadu arnynt. Er enghraifft, nododd Adolygiad Ymarfer Plant 13 fod llawer o bwys wedi'i roi ar ddymuniadau a theimladau'r plentyn ynghylch gyda phwy yr oedd yn byw, heb archwilio'n ddigonol beth oedd yn ei gymell. Yn yr achos hwn, cafodd mam y plentyn ei disgrifio fel dynes ddrwg, cafodd ei safbwyntiau hi eu diystyru a rhoddwyd blaenoriaeth i safbwynt y tad.


Yn ogystal, er bod rhai Adolygiadau Ymarfer Plant yn sôn bod rhywun wedi siarad â'r plant am bryderon am ddiogelu, nid oedd ystyriaeth i sut a ble y digwyddodd y sgyrsiau hynny'n cael ei chofnodi'n gyson. Nododd Adolygiad Ymarfer Plant 19 fod absenoldeb amgylchedd diogel neu breifat wedi cyfyngu efallai ar allu'r plentyn i siarad yn agored, ac argymhellodd y dylai plant gael eu gweld ar eu pen eu hunain os oedd hynny'n briodol. Yn fwy cyffredinol, nid oedd Adolygiadau Ymarfer Plant yn rhoi sylw cyson i b'un a oedd y plant yn cael eu gweld ar eu pen eu hunain, a oedd hynny'n cael ei ystyried yn briodol, a sut yr oedd gweithwyr proffesiynol yn bwriadu cyfathrebu'n effeithiol â'r plentyn.

Er ei bod yn beth da bod Adolygiadau Ymarfer Plant yn sôn bod rhywun wedi siarad â'r plant am bryderon am ddiogelu, nid oedd ystyriaeth i ddarparu amgylchedd diogel yn cael ei nodi bob amser. Nododd Adolygiad Ymarfer Plant 19 y gallai hynny

fod yn ffactor a allai effeithio ar allu plentyn i siarad yn agored; felly, dylai'r plentyn gael ei weld ar ei ben ei hun os yw hynny'n briodol. Nid oedd gweld y plentyn ar ei ben ei hun neu ystyried a oedd hynny'n briodol ac, yn wir, cael cynllun ynghylch y ffordd orau o gyfathrebu â'r plentyn er mwyn deall ei safbwyntiau, bob amser yn rhywbeth a oedd yn cael sylw mewn Adolygiadau Ymarfer Plant.

Mae'r canfyddiadau hyn yn dangos bod cyfathrebu uniongyrchol yn aml yn beth prin, yn digwydd unwaith yn unig, neu'n rhywbeth na châi ei ystyried yn ddigonol. Mae hynny'n cyd-fynd â Ffigur 3 sy'n dangos sut y mae cyfathrebu uniongyrchol yn amrywio ac yn cynnwys achosion lle na siaradwyd â phlant, lle siaradwyd â nhw unwaith yn unig, neu lle na chafodd eu safbwyntiau eu harchwilio na'u dilysu yn llawn

**Ffigur 3. Cyfathrebu â'r plentyn**




**Ymarfer da: Adolygiad Ymarfer Plant 10: os nad oedd plentyn wedi mynychu sawl apwyntiad meddygol, cafodd penderfyniad cychwynnol i beidio â chynnig apwyntiadau pellach ei ailystyried a chafodd y plentyn ei weld wedyn yn rhithiol yn ystod cyfnod y pandemig COVID-19. Adolygiad Ymarfer Plant 22: cafodd ymweliadau niferus eu cynnal gan weithiwr cymdeithasol amddiffyn plant, a oedd yn hybu ymgysylltu mwy cyson â'r plentyn.**

## Effaith bywyd yn y cartref, iechyd, ffactorau amgylcheddol a gwybodaeth hanesyddol

Yn ogystal ag adnabod y pryder am ddiogelu sy'n bresennol, roedd deall profiad go iawn plentyn yn golygu ystyried ei hanes, hanes ei deulu, a'i amgylchedd o ddydd i ddydd. Roedd effaith y man lle'r oedd plentyn yn byw yn arbennig o berthnasol, yn enwedig yn achos plant ag anghenion cymhleth o ran iechyd. Er enghraifft, roedd byw mewn ardal wledig neu fryniog, neu bod â mynediad cyfyngedig i gyfarpar priodol, yn effeithio ar sut yr oedd modd diwallu anghenion plentyn. Nododd Adolygiad

Ymarfer Plant 15 sut yr oedd mam dan straen eithafol oherwydd cartref annigonol ac amhriodol ac oherwydd y bygythiad parhaus y gallai gael ei thaflu allan. Er bod y ffactorau allanol hynny'n cyfrannu at greu darlun o amgylchiadau'r plentyn, nid oedd eu heffaith ar y plentyn yn cael ei harchwilio'n llawn bob amser o safbwynt y plentyn.

At hynny, roedd yr Adolygiadau Ymarfer Plant yn nodi achosion a oedd yn cynnwys plant â chyflyrau meddygol cymhleth ac anghenion cymhleth o ran iechyd, ynghyd â heriau trefniadaethol o ran cydlynu gofal. Roedd yr heriau hynny'n cynnwys diffyg eglurder ynghylch atebolrwydd, ac anawsterau wrth gyrraedd adegau pontio rhwng gwasanaethau. O ganlyniad, roedd yn anodd cynorthwyo rhieni'n effeithiol a deall patrymau megis apwyntiadau a gâi eu colli. Roedd hynny'n cyfyngu ar ddealltwriaeth o sut yr oedd anghenion o ran iechyd yn rhyngweithio â phryderon am ddiogelu. Roedd yr Adolygiadau Ymarfer Plant hefyd yn tynnu sylw at ansicrwydd ynghylch yr adeg pan ddylai apwyntiadau iechyd a gollir gael eu hystyried yn bryder am ddiogelu.

Roedd deall bywyd yn y cartref, gan gynnwys gyda phwy yr oedd y plentyn yn byw a phwy oedd yr oedolion allweddol, yn taflu goleuni pwysig ar brofiad go iawn y plentyn o ddydd i ddydd. Roedd hynny'n wir hefyd am ddeall profiadau, safbwyntiau ac anghenion brodyr/chwiorydd a rhieni. Fodd bynnag, roedd yr Adolygiadau Ymarfer Plant yn nodi nad oedd y cyd-destun teuluol ehangach hwn bob amser yn cael ei integreiddio â phryderon presennol am ddiogelu. Er enghraifft, yn Adolygiad Ymarfer Plant 11, roedd y ddau riant wedi cael profiadau niweidiol yn ystod eu plentyndod, ac roedd yr adolygiad yn pwysleisio'r angen am chwilfrydedd proffesiynol i ddeall pob agwedd ar eu hanes o ran rhianta er mwyn dirnad yn llawn y risgiau i'w plant (Adolygiad Ymarfer Plant 11).

Mewn achosion eraill, câi pryderon am amgylchedd y cartref eu cydnabod ac roeddent yn cynnwys gweld digwyddiadau domestig (a oedd yn golygu bod y plant yn ddioddefwyr yn eu rhinwedd eu hunain), ymddygiad gwrthgymdeithasol ac amodau byw gwael. Fodd bynnag, ni châi effaith y profiadau hynny ar y plentyn ei harchwilio bob amser. Nododd un Adolygiad Ymarfer Plant nad oedd unrhyw ystyriaeth amlwg i'r effaith ar lesiant emosiynol y plentyn (Adolygiad Ymarfer Plant 17). Mae hynny'n awgrymu, er bod gwybodaeth yn hysbys, nad oedd ei goblygiadau i brofiad go iawn y plentyn yn cael eu deall yn gyson na'u hystyried drwy lens diogelu.

Yn gyffredinol, mae'r canfyddiadau hyn yn atgyfnerthu'r angen am ddull gweithredu mwy holistaidd, lle caiff anghenion a risgiau plant eu deall yng nghyd-destun eu hamgylchedd a'u hanes. Fel arall, ceir risg na chaiff effaith gronnol y ffactorau hyn ei chydnabod yn llawn, sy'n cyfyngu ar y gallu i uwchgyfeirio pryderon ac i ymateb yn briodol.

**Ymarfer da: Adolygiad Ymarfer Plant 3 – sylwodd ymwelydd iechyd ar farc ar fabi, a allai fod wedi bod yn farc bys, a chyfeiriodd y plentyn at feddyg teulu. Barn y meddyg teulu oedd mai rhwbio damweiniol oedd yr anaf, ond ar sail pryderon blaenorol cyflwynodd yr ymwelydd iechyd atgyfeiriad diogelu i wasanaethau plant.**

### 4.1.2 Integreiddio safbwynt y plentyn mewn penderfyniadau a chamau gweithredu a sicrhau bod ei safbwynt yn ganolog iddynt

Bu ail ffocws y thema hon yn archwilio sut yr oedd yr Adolygiadau Ymarfer Plant yn disgrifio dealltwriaeth ymarferwyr o safbwyntiau a phrofiadau plant, a sut yr oedd y ddealltwriaeth honno'n dod yn ganolog i benderfyniadau a chamau gweithredu dilynol. Roedd hynny'n cynnwys rôl ymarfer perthynol, y graddau yr oedd dymuniadau a theimladau plant yn cael eu dilysu a'u hailystyried dros gyfnod o amser, a sut yr oedd y safbwyntiau hynny'n cael eu cydbwyso â safbwyntiau rhieni a gofalwyr. At hynny, bu ail ffocws y thema'n archwilio a oedd yna hyrwyddwr amlwg i safbwynt y plentyn, a oedd yn eiriol dros ei safbwyntiau yn ystod prosesau diogelu.

#### Ymarfer perthynol

Mae ymarfer perthynol wedi'i ddisgrifio fel ymarfer sy'n manteisio ar yr elfen berthynol mewn lleoliadau sy'n gofalu, yn cefnogi, yn addysgu neu'n carcharu, fel ymateb sy'n seiliedig ar systemau (Lamph et al. 2023, t1). Sylwyd bod y cysyniad o ymarfer perthynol yn thema allweddol o ran deall a chydnabod safbwyntiau a phrofiadau plentyn ar draws y system. Gwelodd Adolygiad Ymarfer Plant 4 nad oedd cydberthnasau wedi'u sefydlu â'r plentyn a gweithwyr proffesiynol ac nad oedd gan unrhyw unigolyn berthynas gyson â'r plentyn, a oedd yn llawn ymddiriedaeth. Gallai hynny olygu ei bod yn anodd siarad â phlentyn mewn modd a oedd yn golygu ei fod yn barod i siarad yn agored a rhannu ei safbwyntiau ar ei brofiadau go iawn.

Roedd yr Adolygiadau Ymarfer Plant yn cynnwys enghreifftiau o gydberthnasau da rhwng teuluoedd ac ymarferwyr megis y gweithiwr cymdeithasol amddiffyn plant (Adolygiad Ymarfer Plant 14) ond roeddent hefyd yn cynnwys enghreifftiau lle'r oedd cydberthnasau wedi chwalu. Er enghraifft, dywedodd rhiant yn Adolygiad Ymarfer Plant 18 fod ei weithiwr cymdeithasol yn gwneud sylwadau negyddol mewn cynadleddau a chyfarfodydd, nad oeddent wedi'u rhannu ag ef yn flaenorol, a oedd yn gwneud iddo deimlo bod y gweithiwr yn ymddwyn yn ymosodol tuag ato.

Roedd enghreifftiau eraill yn amlygu heriau pan oedd diffyg parhad ymhlith gweithwyr allweddol, a'r gofid posibl yr oedd hynny'n ei achosi. Er enghraifft,

dywedodd mam o Adolygiad Ymarfer Plant 24 ei bod yn bwysig datblygu perthynas lawn ymddiriedaeth ag ymarferwyr er mwyn iddi allu siarad yn agored a rhannu ei meddyliau. Dywedodd ei bod yn gorfod ailadrodd ei stori bob tro yr oedd gweithiwr yn newid, a bod hynny bob amser yn effeithio ar ei hiechyd meddwl ac yn ei gorfodi i ail-fyw'r trawma.

Mae hynny'n amlygu pwysigrwydd datblygu'r cydberthnasau llawn ymddiriedaeth hyn er mwyn deall profiad go iawn plentyn neu deulu ac er mwyn iddynt deimlo'n gysurus wrth rannu eu safbwynt. Mae hefyd yn golygu bod angen i'r broses ddiogelu gydnabod pwy sydd yn y sefyllfa orau i fod â'r berthynas honno, a sut y dylai'r sawl dan sylw gael eu cynnwys yn y broses ddiogelu.

**Ymarfer da: Adolygiad Ymarfer Plant 2: Nodwyd bod yr ysgol yn weithgar iawn o ran darparu cymorth a gofal i'r person ifanc, a bod y person ifanc wedi ymateb yn gadarnhaol i'r cydberthnasau a grëwyd â'r staff. Adolygiad Ymarfer Plant 15: Roedd cymorth parhaus gan ymwelydd iechyd yn darparu cysondeb. Adolygiad Ymarfer Plant 23: Roedd darpar weithiwr cymdeithasol yn cynorthwyo'r plentyn yn gyson gan greu perthynas lawn ymddiriedaeth ag ef, ochr yn ochr â gweithiwr cymdeithasol camfanteisio'n rhywiol ar blant. Adolygiad Ymarfer Plant 6: Roedd cynnwys y gweithiwr ieuenctid a oedd ynghlwm wrth yr ysgol fel pe bai'n esgor ar fewnbwn cadarnhaol.**

## Hyrwyddwr safbwynt y plentyn

Yn ogystal ag ymarferwyr a oedd yn gweithio mewn modd perthynol, un ffactor allweddol a nodwyd yn y dadansoddiad oedd yr angen i ddeall pwy oedd yn hyrwyddo safbwynt y plentyn ar draws y broses ddiogelu. O ran yr Adolygiadau Ymarfer Plant Estynedig, dylid nodi bod gan bob plentyn yng Nghymru sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol, neu sy'n ymwneud â phrosesau amddiffyn plant, yr hawl i gael eiriolaeth gan Eiriolwr Proffesiynol Annibynnol statudol (Llywodraeth Cymru, 2025). Fodd bynnag, roedd y graddau y caiff y cynnig hwnnw ei dderbyn yn amrywio.

Yn ogystal, efallai nad oedd gan blant Adolygiadau Cryno hawl i gynnig gweithredol o Eiriolwr Proffesiynol Annibynnol, ond mae deall eu barn a bod yn eiriol dros eu dymuniadau a'u teimladau yr un mor hanfodol. Yn ogystal â rolau eiriolaeth ffurfiol, gall oedolyn a enwir ac yr ymddiriedir ynddo sydd â pherthynas â'r plentyn sicrhau bod safbwyntiau'r plentyn yn hysbys a sicrhau eu bod yn cael eu rhannu a'u cynnwys mewn fforymau gwneud penderfyniadau. Fodd bynnag, nid oedd bob amser yn glir yn yr Adolygiadau Ymarfer Plant a oedd person o'r fath yn bodoli ar gyfer y plentyn, pwy oedd y person dan sylw, na sut yr oedd y person wedi'i gynnwys yn y broses ddiogelu.

Yn rhai o'r Adolygiadau Ymarfer Plant, roedd yna enghreifftiau lle'r oedd gweithwyr cymdeithasol yn cyflawni'r rôl honno neu lle'r oedd y rhieni'n gweithredu fel eiriolwyr dros ddymuniadau a theimladau eu plentyn, yn enwedig pan oedd gan blentyn gyflyrau iechyd cymhleth a phan oedd y rhieni'n eiriol dros awydd eu plentyn i gael 'bywyd normal' (Adolygiadau Ymarfer Plant 10 ac 16). Yn aml, fodd bynnag, roedd gan rieni eu safbwyntiau eu hunain a oedd efallai'n wahanol i safbwyntiau eu plant, ac roeddent wedi profi eu heriau eu hunain. Yn ôl Adolygiad Ymarfer Plant 18, er bod gan blant hawl efallai i eiriolwyr annibynnol, bernid bod rhai plant yn rhy ifanc i fod yn gymwys neu i elwa o'u defnyddio. Argymhelliad yr adolygwyr oedd y dylai pob sefydliad ystyried eiriolaeth drwy lens ehangach megis eiriolaeth heb gyfarwyddyd, a allai fod wedi bod yn fuddiol pe bai'r gwasanaethau wedi cael eu cymeradwyo. Mae hynny'n cyd-fynd ag arsylwadau yn Adolygiad Ymarfer Plant 1, lle nododd yr adolygwyr fel a ganlyn:

> "Mae'n beth da bod sylw dyladwy wedi'i roi i'r dymuniadau a'r teimladau a nodwyd gan y plentyn ac i farn yr Eiriolwr Annibynnol a'r Gwarcheidwad Plant, ond mae'n bosibl y byddai dull gweithredu mwy trylwyr a hirdymor wedi esgor ar ymarfer cydbwyso mwy deallus rhwng y dymuniadau a'r teimladau a nodwyd gan y plentyn a'i lesiant a'i les mwy hirdymor" [Cyfieithiad] (Adolygiad Ymarfer Plant 1)

Gall fod yn anodd sicrhau bod modd cynnwys pobl berthnasol yn y broses ddiogelu ac wrth wneud penderfyniadau. Yn Adolygiad Ymarfer Plant 14, nodwyd bod gan y ferch anawsterau cyfathrebu a bod gweithiwr gofal cartref wedi'i bennu ar ei chyfer a oedd mewn cysylltiad agos a rheolaidd iawn â hi ac a fyddai wedi bod yn ffynhonnell gyfoethog o wybodaeth. Fodd bynnag, ni chafodd y person dan sylw erioed wahoddiad i gynhadledd ddiogelu, a hynny efallai oherwydd diffyg protocolau rhannu gwybodaeth. Mae hynny'n dangos y gall fod yna oedolion allweddol sydd â pherthynas lawn ymddiriedaeth â'r plentyn, a allai ac a ddylai gael eu hystyried yn y prosesau diogelu er mwyn bod yn eiriol dros safbwyntiau'r plentyn neu ddarparu gwybodaeth werthfawr i gynrychioli lles pennaf y plentyn.

**Ymarfer da: Adolygiad Ymarfer Plant 1: Roedd pennu eiriolwr annibynnol ar gyfer y plentyn yn dangos arfer da; cafodd un o warcheidwaid plant CAFCASS ei benodi ar gyfer y plentyn yn ystod y trafodion gofal a gynhaliwyd yn ystod cyfnod yr amserlen. Adolygiad Ymarfer Plant 12: Cafodd gwarcheidwad plant ei benodi, a pharhaodd yn warcheidwad drwy gydol y broses. Adolygiad Ymarfer Plant 13: Bu gwarcheidwad plant yn ymgysylltu â nhw'n rheolaidd er mwyn trafod eu dymuniadau a'u teimladau, a gwnaeth eu cyflwyno i'w cyfreithiwr ac i'r Barnwr. Adolygiad Ymarfer Plant 2: Parhaodd y person ifanc i**

**ymgysylltu'n weithredol â gweithiwr y Tîm Cymunedol Ymyriadau Dwys. Adolygiad Ymarfer Plant 10: Cafodd y plentyn gymorth mynych gan weithiwr Gwasanaeth Ymyriadau Ieuenctid mewn ysgol. Er bod y ferch yn ei chael yn anodd cyfleu ei theimladau, llwyddodd y gweithiwr Gwasanaeth Ymyriadau Ieuenctid i feithrin rhywfaint o ddealltwriaeth a chofnododd bryderon am ei llesiant emosiynol.**

## Cydnabod a dilysu profiadau'r plentyn yn barhaus

Mae bywydau plant yn esblygu yn sgil amgylchiadau dynamig, felly mae'n naturiol bod eu safbwyntiau'n gallu newid gydag amser hefyd. Yn aml, roedd yr Adolygiadau Ymarfer Plant yn sôn am ddeall dymuniadau a theimladau plentyn ac am glywed llais y plentyn, ond nid oedd y pethau hynny bob amser yn cael eu hadolygu, eu dilysu neu'u harchwilio. Yn Adolygiad Ymarfer Plant 1, nodwyd bod yr hyn a oedd gan y gofalwr maeth i'w ddweud yn cael blaenoriaeth dros y plentyn:

> "Weithiau, roedd y pwys a gâi ei roi ar yr hyn a oedd gan y gofalwr maeth ei hun i'w ddweud yn fwy na'r ystyriaeth a gâi ei rhoi i brofiadau'r plant yn y lleoliad. Felly, mae'n bosibl bod statws cadarn y gofalwr fel gofalwr maeth da y gellid ymddiried ynddo wedi'i ragflaenu ac wedi'i gwneud yn anodd i weithwyr proffesiynol adnabod ac uwchgyfeirio meysydd a oedd yn peri pryder" [Cyfieithiad] (Adolygiad Ymarfer Plant 1)

Yn ei adborth, tynnodd y plentyn yn yr Adolygiad Ymarfer Plant hwn sylw'r adolygwyr at bwysigrwydd parhau i ofyn i blentyn am ei farn, a gwrando ar ei ymateb.

> "Nid yw un cyfweliad yn unig na ofynnodd y person ifanc amdano'n debygol o arwain at rannu gwybodaeth mor sensitif, yn enwedig os na chredwyd y person ifanc yng nghyswllt pryderon blaenorol" [Cyfieithiad] (Adolygiad Ymarfer Plant 1)

Yn yr un modd nododd Adolygiad Ymarfer Plant 19 fod plentyn, ar ôl i'w dad farw, wedi cael cynnig cymorth a gwasanaeth cwnsela ar gyfer profedigaeth ond nad oedd y plentyn am dderbyn y cynnig ar y pryd. Ni chafodd y cynnig ei ailystyried, er bod y plentyn yn sôn yn rheolaidd am arwyddocâd marwolaeth ei dad. Mae hynny'n amlygu'r angen i ailystyried ymdrechion i ddeall safbwynt ac anghenion y plentyn.

Dangosodd Adolygiad Ymarfer Plant 13 fod rhywrai'n gwrando ar lais y plentyn, ond nododd yr adolygwyr fod barn y tad wedi cael blaenoriaeth dros farn y fam a bod y tad yn bresennol ar gyfer yr archwiliad meddygol amddiffyn plant, a oedd yn golygu bod cyfle wedi'i golli i siarad â'r plentyn ar ei ben ei hun. Canlyniad hynny oedd bod pwys mawr wedi'i roi ar ddymuniadau a theimladau'r plentyn ynghylch gyda phwy yr oedd yn byw, heb fod ei gymhellion wedi'u harchwilio yn ddigonol.

**Ymarfer da: Adolygiad Ymarfer Plant 1: Roedd yna dystiolaeth bod ymarferwyr yn ystyried yn sensitif faterion a oedd yn effeithio ar y plentyn, wrth iddynt geisio diwallu ei anghenion o ran gofal a chymorth, a bod defnydd da'n cael ei wneud o eiriolaeth a bod llais a dymuniadau a theimladau'r plentyn yn cael lle canolog. Adolygiad Ymarfer Plant 10: Mynegodd y plentyn a oedd yn rhan o'r drafodaeth honno bryderon am ei gyfleoedd cyfyngedig o ran gyrfa. Roedd y gwasanaeth gyrfaoedd yn bresennol yn ystod yr alwad er mwyn cynorthwyo'r plentyn â gweithgareddau dilynol.**

## Cydbwyso ymateb diogelu â dymuniadau a theimladau

Roedd y modd yr oedd ymateb diogelu'n cael ei ddarparu pan oedd plentyn neu riant yn mynegi ei safbwynt yn amrywio. Roedd enghreifftiau'n cynnwys diffyg uwchgyfeirio yng nghyswllt pryderon, er enghraifft pan oedd plentyn yn sôn am hunan-niweidio ac am ystyried hunanladdiad. Roedd hynny'n arbennig o amlwg pan oedd plentyn yn symud o'r naill ardal i'r llall ac yn teimlo bod parhau i ddarparu cymorth ar y lefel ofynnol yn broblemus.

Mewn enghreifftiau eraill, pan oedd plentyn yn dyst i gamdriniaeth ddomestig rhwng rhieni, nid oedd cofnod bod unrhyw ymyriad therapiwtig wedi'i gynnig, ac nid oedd cofnod ynghylch a oedd therapi wedi'i gynnig yn rhan o ymateb diogelu pan ddatgelodd y plentyn weithgarwch rhywiol pan oedd yn 10 oed. Dangosodd adolygiad arall, pan oedd plentyn wedi mynegi ei bryderon, er enghraifft pan ddywedodd ei fod wedi'i fygwth â chyllell, nad oedd y pryderon hynny wedi arwain at nodi ei fod yn agored i niwed ac nad oedd yr heddlu na gwasanaethau iechyd wedi gwneud atgyfeiriadau diogelu ar yr adegau hynny.

Yn Adolygiad Ymarfer Plant 1, dangosodd nodiadau'r achos fod yna gofnod o safbwynt y plentyn ar ffurf honiad ynghylch ei ofalwr maeth, ond nad oedd unrhyw dystiolaeth o holi'r plentyn beth oedd wedi digwydd ar y pryd, neu o'i holi am ei amser yn y lleoliad o ran hynny, ar gael tan y cyfweliad ymadael bron dair blynedd yn ddiweddarach. Mae hynny'n dangos, pan fydd plentyn wedi mynegi ei bryderon, nad oes ymarfer diogelu priodol sy'n cynnwys y plentyn yn dilyn yn brydlon bob amser, yn dibynnu ar y wybodaeth arall sy'n cael ei hystyried.

**Ymarfer da: Adolygiad Ymarfer Plant 1: Roedd tystiolaeth o ddefnydd da o eiriolaeth, a bod llais a dymuniadau a theimladau'r plentyn yn cael lle canolog ac yn cyfrannu at ddylanwadu ar ymateb diogelu megis ei Gynllun Llwybr mewn partneriaeth.**

## 4.2. Cynnwys y plentyn, y teulu a gofalwyr ym mhroses yr Adolygiad Ymarfer Plant

Mae'r thema hon yn canolbwyntio ar sut y caiff y plentyn, y teulu a gofalwyr eu cynnwys ym mhroses yr Adolygiad Ymarfer Plant. Mae ffocws cyntaf y thema hon yn archwilio adborth y plentyn, y teulu neu ofalwyr i'r Adolygiad Ymarfer Plant. Mae'n crynhoi'r prif faterion a godwyd, megis heriau, yn ogystal ag awgrymiadau ar gyfer ymarfer yn y dyfodol.

### 4.2.1 Prif faterion o adborth ynghylch safbwyntiau pobl ifanc, teuluoedd a gofalwyr

Isod, ceir crynodeb o rai o'r prif feysydd ffocws lle cafodd yr adolygwyr adborth gan blant, teuluoedd a gofalwyr yn rhan o broses yr Adolygiad Ymarfer Plant. Roedd peth adborth i'w weld yn naratif yr Adolygiad Ymarfer Plant ac mewn 'Pwyntiau Dysgu', ond nid oedd pob un o'r arsylwadau hynny i'w gweld yn yr adran Argymhellion. Y cwestiwn sy'n deillio o hynny yw a ddylai adborth o'r fath gael ei gynnwys mewn argymhellion, sef man cychwyn camau gweithredu ar gyfer y dyfodol yn aml iawn.

### Heriau ac awgrymiadau

- **Gwrando a darparu cyfleoedd i rannu eu safbwyntiau:**
  - Gwrando ar ddymuniadau plant a theuluoedd a rhoi sylw i'r hyn sy'n bwysig iddynt
  - Gwrando ar blant a'u credu
  - Bod yn chwilfrydig am eu hymddygiad, a gofyn cwestiynau'n barhaus
  - Dylai fod yn broses yn hytrach nag yn gyfarfod sy'n digwydd unwaith yn unig, dylai camau dilynol ddigwydd, a dylid cynnig gwybodaeth am gymorth
  - Defnyddio apiau sy'n canolbwyntio ar y plentyn, er mwyn iddo allu cael mynediad diogel cyfeiriedig at oedolion y gellir ymddiried ynddynt, pan fydd yn dymuno
  - Cynnig cyfleoedd i 'gerdded a sgwrsio' y tu allan i'r cartref gyda gweithwyr proffesiynol
- **Cyfathrebu'n glir:**
  - Gwella prydlondeb gwybodaeth am iechyd
  - Cyfathrebu gwell rhwng asiantaethau
  - Esbonio'r broses a pham y mae'n digwydd, ac â phwy y dylent gysylltu
  - Bod yn onest ac yn dryloyw, peidio â dweud pethau mewn cyfarfodydd sy'n wahanol i'r hyn a ddywedir yn ystod ymweliadau â'r cartref
- **Mynediad i gymorth priodol:**
  - Angen gwaith asesu mwy holistaidd a chymorth mwy cydgysylltiedig, er enghraifft sy'n mynd i'r afael â chamdriniaeth ddomestig ac iechyd meddwl
  - Cymorth penodol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal fel dioddefwyr camdriniaeth ddomestig
- **Myfyrio a herio:**
  - Dylai gweithwyr proffesiynol fod wedi herio'n fwy helaeth y penderfyniad i aros mewn perthynas, a dylent fod wedi mynegi eu pryderon am hynny
- **Cynnwys tadau:**
  - Peidio â diystyru rôl a chefndir y tad biolegol, ac arwyddocâd posibl hynny i'r gofal a'r ymyriadau a ddarperir
  - Cysylltu â'r tad i roi gwybod iddo am ymwneud gwasanaethau plant
- **Cynnwys y teulu ehangach gan gynnwys neiniau a theidiau:**
  - Mewn un achos, roedd nain yn ymwneud llawer â gofalu; mae angen gwrando ar eu barn a'u safbwyntiau nhw hefyd
- **Hyfforddiant i ymarferwyr:**
  - Cael hyfforddiant penodol i ymarferwyr gan asiantaeth annibynnol sydd ag arbenigedd, er enghraifft mewn gweithio gyda phlant sydd â phrofiad o dderbyn gofal
- **Parhad mewn cydberthnasau:**
  - Cydnabod effaith cael mwy nag un gweithiwr, ac effaith y gofid o orfod ail-fyw trawma
  - Trosglwyddo cymorth ac ymyriadau rhwng ardaloedd yn ystod cyfnodau pontio

### Adborth cadarnhaol:

- **Teimlo bod rhywun yn gwrando arnynt ac yn eu cynorthwyo (ymwelydd iechyd a meddyg teulu)**
- **Swyddog heddlu a gynorthwyodd blentyn wedi'i ddisgrifio fel person gwych**
- **Cymorth cadarnhaol a ddarparwyd er mwyn paratoi ar gyfer y llys**
- **Gwasanaethau cymorth a dargedwyd wedi'u rhoi ar waith**
- **Yr awdurdod lleol wedi parhau i leoli brodyr/chwiorydd gyda'i gilydd**
- **Ysgol wedi monitro lles y plentyn, wedi'i gynorthwyo ac wedi bod yn eiriol drosto**
- **Gweithwyr cymdeithasol plant yn canolbwyntio ar y plentyn**
- **Gweithwyr cymdeithasol plant yn darparu gwasanaeth da i ofalwyr maeth**

### 4.2.2 Pwyntiau dysgu ac argymhellion yn ymwneud â llais a phrofiad y plentyn

Mae ail ffocws y thema hon yn ymwneud â'r argymhellion a'r prif bwyntiau dysgu mewn Adolygiadau Ymarfer Plant o ran deall llais y plentyn a'i brofiad go iawn ac o ran gweithredu ar eu sail. Nodwyd deg categori a oedd yn cynnwys deall safbwynt y plentyn fel pwynt dysgu neu fel argymhelliad er mwyn symud camau gweithredu yn eu blaen. Ceir crynodeb ohonynt isod:

1. Deall **effaith trawma** ar brofiad go iawn
2. **Amser i feithrin cydberthnasau** â'r plentyn er mwyn deall profiadau go iawn
3. **Sicrhau bod y plentyn yn cael ei weld ar ei ben ei hun** er mwyn deall profiadau go iawn
4. Archwilio beth sy'n **cymell safbwynt y plentyn**
5. **Eiriolaeth** er mwyn deall safbwynt y plentyn
6. **Parhau i ddeall** safbwyntiau'r plentyn yn ystod **pob cam**
7. Safbwynt y plentyn **yn cael ei gofnodi'n gyson**
8. Safbwyntiau'r plentyn **yn cael eu cynnwys mewn asesiadau a chynlluniau diogelu**
9. **Canllawiau ymarfer** ar ddeall safbwyntiau'r plentyn a'i brofiad go iawn
10. **Hyfforddiant** ynghylch deall profiadau go iawn y plentyn

Mae'r enghreifftiau'n cynnwys lefelau amrywiol o fanylder ynghylch beth sy'n ofynnol yn benodol i gryfhau'r modd yr ydym yn cynnwys lleisiau a phrofiadau plant, er mwyn llywio ein hymarfer diogelu. Er enghraifft, nododd un argymhelliad y dylai dymuniadau a theimladau plant gael eu cofnodi'n gyson pryd bynnag y bo modd (Adolygiad Ymarfer Plant 16). Yn yr enghraifft hon, ni chafwyd manylion pellach ynghylch sut y dylid mynd i'r afael ag unrhyw rwystrau a oedd yn atal hynny rhag digwydd nac ynghylch sut y gellir gweithredu ar sail eu dymuniadau a'u teimladau, er enghraifft, er mwyn eu hystyried wrth wneud penderfyniadau diogelu. Roedd rhai enghreifftiau'n fwy penodol ac efallai'n gliriach i'w gweithredu, ac roeddent yn ystyried beth oedd yn ofynnol er mwyn ei gwneud yn haws deall llais plentyn. Er enghraifft:

> **Dylai timau maethu sicrhau bod systemau ar waith i'w gwneud yn haws cofnodi lleisiau a barn plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal, yn rhan o drefniadau goruchwylio lleoliadau ac adolygiadau blynyddol, sy'n cynnwys sianelau y gallant eu defnyddio i gyfathrebu â gweithwyr proffesiynol y maent yn ymddiried ynddynt, a dylent chwilio am gyfleoedd i atgyfnerthu hynny**
>
> [Cyfieithiad] (Adolygiad Ymarfer Plant 1)

At hynny, roedd yna enghreifftiau mewn un Bwrdd Diogelu Rhanbarthol lle'r oedd yr un argymhelliad i'w weld mewn tri Adolygiad Ymarfer Plant ar wahân dros gyfnod o 14 mis, gyda thestun ychwanegol mewn un argymhelliad er mwyn cynnwys cyfeiriad penodol at blant anabl. Roedd yr argymhelliad penodol hwnnw'n gofyn am ystyried datblygu canllawiau ymarfer ynghylch profiad go iawn er mwyn sicrhau bod y plentyn yn cael ei glywed yn weithredol. Er y gellir deall yr angen i gael argymhellion a ailadroddir, oherwydd yr amser sy'n ofynnol i'w gweithredu, byddai 'camau gweithredu a gymerwyd hyd yma' yn fuddiol pan gaiff argymhellion eu hailadrodd mewn Adolygiadau Ymarfer Plant dilynol, er mwyn tynnu sylw at gynnydd a sicrhau bod camau gweithredu'n cael eu cymryd.



# 05

# Meddyliau wrth gloi

Er bod dymuniadau a theimladau'r plentyn yn cael eu deall, eu cofnodi a'u defnyddio i raddau amrywiol mewn penderfyniadau diogelu, roedd yna anghysondebau yn y modd y câi safbwynt y plentyn ei ddeall a'i ddilysu ac yn y modd yr oedd hynny'n chwarae rhan wrth ddylanwadu ar benderfyniadau diogelu ac ymyriadau.


Mae diogelu plant wedi'i ymgorffori mewn system gymhleth iawn, a chaiff ei lywodraethu gan amryw ddarnau o ddeddfwriaeth, canllawiau, a pholisïau a gweithdrefnau cenedlaethol a lleol. Mae ymarferwyr yn gweithredu mewn amgylchedd sydd dan bwysau oherwydd galw mawr ac adnoddau cyfyngedig, y gellid dadlau eu bod i gyd efallai'n cyfrannu i ddull gweithredu a arweinir gan systemau yn hytrach na gan y plentyn.

Un cwestiwn allweddol y dylid ei ofyn yw pa mor dda y gall y system ddiogelu annog a galluogi ymarferwyr yn gyson i adnabod safbwynt y plentyn yn chwilfrydig, cael eu harwain ganddo, ac ymateb yn briodol iddo? Mae'r tabl isod yn amlygu rhai gwahaniaethau posibl er mwyn myfyrio ynghylch sut broses y gallai proses a arweinir gan systemau fod a sut y gallai fod yn wahanol i safbwynt a arweinir gan y plentyn.

**Tabl 13. Safbwynt a arweinir gan systemau neu safbwynt a arweinir gan y plentyn**

| Siwrnai ddiogelu | Safbwynt sy'n seiliedig ar systemau-prosesau | Safbwynt sy'n seiliedig ar brofiad y plentyn |
|---|---|---|
| Adnabod | Pa faterion y nodwyd eu bod yn bryderon posibl am ddiogelu? | Beth sy'n digwydd o ran y plentyn ar hyn o bryd, a beth yw ei bryderon pennaf? |
| Archwilio | Asesu angen sydd heb ei ddiwallu, niwed a risgiau posibl, yn ogystal â ffactorau amddiffynnol, i'r plentyn, y teulu a'r amgylchedd. | Sut beth yw bywyd o ddydd i ddydd ar gyfer y plentyn a'i deulu, pwy sydd o gwmpas a phryd? |
| Gweithredu | Beth yw'r cymorth/ymyriad diogelu mwyaf priodol ar gyfer y plentyn a'r teulu? | Beth sydd bwysicaf i'r plentyn? Beth y byddai'n hoffi ei weld yn digwydd? Beth allai wneud bywyd yn well i'r plentyn a'i deulu? |
| Gwerthuso | Pa gamau gweithredu sydd wedi'u cwblhau a beth yw'r canlyniad? Pa newidiadau sydd wedi digwydd a beth yw'r cynllun wrth symud ymlaen? | A oes unrhyw beth wedi newid, wedi gwella neu wedi gwaethygu? Beth sydd bwysicaf i'r plentyn ar hyn o bryd? A yw'n teimlo yn ddryslyd ynghylch unrhyw beth? Beth y byddai'n hoffi ei weld yn digwydd nesaf? |





Gyda'i gilydd, mae'r canfyddiadau yn y dadansoddiad thematig hwn yn dangos bod anghysondebau a heriau'n ymwneud â'r modd y câi safbwynt a phrofiadau go iawn plentyn eu ceisio a'u cydnabod ac yn y modd y gweithredid ar eu sail. Roedd bron ddau o bob tri o'r Adolygiadau Ymarfer Plant yn dweud, mewn argymhellion neu bwyntiau dysgu, bod yn rhaid cyflawni mwy o waith dysgu er mwyn deall safbwyntiau a phrofiad go iawn y plentyn yn well a chlywed ei lais. Mae'r rhain yn themâu sy'n codi dro ar ôl tro ac sydd wedi'u canfod ar draws Adolygiadau Ymarfer Plant, Adolygiadau Ymarfer Oedolion ac, yn Lloegr, Adolygiadau Ymarfer Diogelu Plant. Mae hynny'n awgrymu bod angen adolygu'r materion y mae argymhellion yn eiriol drostynt a'r modd y maent yn cael eu gweithredu, a bod angen archwilio unrhyw gynnydd a wnaed o fewn cyfrifoldebau gweithredol a strategol dilynol.

Yn yr Adolygiadau Ymarfer Plant eu hunain, roedd y modd y câi safbwynt y plentyn ei ddeall a'i ystyried mewn ymyriadau diogelu'n amrywio yn fawr. Ceir cyfrifoldeb statudol sy'n golygu bod yn rhaid sicrhau bod pob plentyn sy'n derbyn gofal neu sy'n destun prosesau amddiffyn plant yn cael cynnig eiriolaeth broffesiynol annibynnol ar ffurf 'cynnig gweithredol'. Fodd bynnag, gall nifer y plant sy'n derbyn y cynnig hwn fod yn anghyson. Yn 2023-2024, cafodd eiriolaeth ei chynnig yn weithredol i gyfanswm o 3,051 o blant, a chafwyd 1,345 o gynigion gweithredol lle cafodd eiriolwr proffesiynol annibynnol ei ddarparu, sy'n awgrymu bod 1,706 o gynigion heb eu derbyn. Ni chaiff statws y cynnig hwn ei gydnabod bob amser mewn Adolygiadau Ymarfer Plant, a hebddo erys y cwestiwn ynglŷn â faint o sicrwydd sydd gan ymarferwyr, rheolwyr ac, yn wir, adolygwyr – o safbwynt eu dealltwriaeth o ganfyddiadau'r plentyn a'u gallu i weithredu ar eu sail – ynghylch beth sy'n digwydd i'r plentyn yn ei fywyd pob dydd a beth fyddai'n helpu yn ei farn ef. Mae sicrhau, pan fydd pobl ifanc yn mynegi eu barn, bod y farn honno'n cael ei chydnabod, ei bod yn cael ei dilysu ac y gweithredir ar ei sail yn allweddol o ran sicrhau bod unrhyw ymarfer diogelu'n canolbwyntio ar y plentyn.

Mae deall barn a chanfyddiadau plant, teuluoedd a gofalwyr yn safbwynt unigryw, a gall ddarparu gwybodaeth werthfawr ynghylch sut y ceir cymorth o ran diogelu ac ynghylch y cyd-destun ehangach. Cafodd y wybodaeth honno ei chyflwyno mewn ffyrdd gwahanol iawn mewn Adolygiadau Ymarfer Plant, ac nid oedd bob amser yn amlwg nac wedi'i chysylltu yn glir ag unrhyw agweddau ar ddysgu parhaus. Os bwriedir i blant a theuluoedd fod yn ganolog i'r broses ddiogelu, yna dylai eu safbwyntiau a'u profiadau fod yn hollol amlwg drwy gydol y broses ddiogelu, a dylid sicrhau tryloywder o ran sut y mae safbwyntiau o'r fath wedi'u cydnabod mewn penderfyniadau ac mewn camau gweithredu dilynol.

Mae'r dadansoddiad hwn yn tynnu sylw at bwyntiau allweddol i fyfyrio yn eu cylch, o ran ein dealltwriaeth o safbwyntiau plant a theuluoedd, eu profiadau go iawn a'r modd yr ydym yn gweithredu ar sail y wybodaeth dan sylw. Os bwriedir i'w safbwynt fod yn ganolog i bob gweithgarwch diogelu, yna rhaid mai'r ddealltwriaeth honno'n barhaus yw sylfaen nid yn unig ein hymarfer ond hefyd unrhyw ddysgu sy'n deillio o adolygiadau.

# 06

# Prif bwyntiau dysgu a chyfleoedd i ddatblygu

## 6.1 Dangos tystiolaeth o safbwyntiau plant a deall eu profiadau go iawn drwy gydol y broses ddiogelu

**Cyd-destun:** Roedd pob Adolygiad Ymarfer Plant yn cynnwys rhyw fath o gyfeiriad anuniongyrchol at brofiad go iawn y plentyn, ond yn aml adroddid bod profiad go iawn y plentyn ar goll, a dim ond un Adolygiad Ymarfer Plant a ddangosodd fod profiad go iawn y plentyn wedi cyfrannu at ddylanwadu'n uniongyrchol ar benderfyniadau diogelu. Roedd yr Adolygiadau Ymarfer Plant yn nodi nad oedd effaith risgiau sy'n cyd-ddigwydd a niwed cronnol bob amser yn cael ei gweld o safbwynt y plentyn. Roedd hynny'n golygu nad oedd pryderon 'lefel is' bob amser yn cael sylw ar y cyd, oherwydd bod yna lai o ddealltwriaeth o effaith sut yr oedd pryderon o'r fath yn effeithio ar brofiad go iawn y plentyn o ddydd i ddydd.

Rhaid i **ymarferwyr a rheolwyr** sicrhau bod safbwyntiau plant wedi'u ceisio yn briodol, drwy ddarparu cyfleoedd a systemau sy'n ddiogel ac yn addas i blant er mwyn iddynt allu rhannu eu gwir ddymuniadau a'u gwir deimladau. Dylai hynny gynnwys gweld y plentyn ar ei ben ei hun ac, os nad yw hynny'n bosibl, cofnodi'r rhesymau pam. Rhaid i'r safbwyntiau hyn gael eu cofnodi'n glir er mwyn dangos bod llais y plentyn wedi'i glywed, ei ddeall a'i ddilysu. Yn anad dim, dylid dangos a chofnodi sut y mae plant yn teimlo am y pryderon sydd gan asiantaethau, gan gynnwys niwed 'lefel is' a chronnol ac effaith niwed o'r fath ar eu profiad go iawn o ddydd i ddydd.

Awgrymir y dylid ystyried defnyddio'r Adnodd Tracio Diogelu Amlasiantaethol i helpu i gofnodi niwed a risg sydd wedi cronni[3]. Dylid dangos bod dymuniadau a theimladau'r plentyn yn cyfrannu at uwchgyfeirio pryderon ac yn cyfrannu i benderfyniadau diogelu, gan nodi manylion y camau gweithredu dilynol a'r canlyniadau.

Dylid ystyried deall pwy sy'n briodol i hyrwyddo safbwyntiau'r plentyn ar bob lefel yn y broses, gan gynnwys aelodau o'r teulu ehangach, a dylid ystyried yn fwy cyffredinol unrhyw ymarferwyr y mae ganddynt berthynas â'r plentyn. Mae'n werth nodi na fydd safbwyntiau'r plentyn yn aros yr un fath, felly dylid eu hadolygu'n barhaus a dylid archwilio'r hyn sy'n eu cymell.

## 6.2 Ymgorffori safbwynt y plentyn ar draws yr adolygiad

**Cyd-destun:** Ar draws yr Adolygiadau Ymarfer Plant, roedd cyfeiriadau uniongyrchol at ddymuniadau, teimladau neu brofiad go iawn y plentyn yn anghyson. Roedd bron hanner (45.8%) yr Adolygiadau Ymarfer Plant yn dangos cyfeiriad clir/penodol at lais y plentyn yn y naratif, a dim ond un adolygiad allan o 24 oedd yn darparu **tystiolaeth** benodol bod barn y plentyn neu'r person ifanc wedi cyfrannu at ddylanwadu'n uniongyrchol ar benderfyniadau diogelu. Mae'r canfyddiadau'n dangos, os yw llais y plentyn yn amlwg yn y naratif, ei fod hefyd yn fwy tebygol o ymddangos mewn argymhellion.

Dylai **adolygwyr** geisio deall, o'u dadansoddiad, pwy sy'n hyrwyddo safbwyntiau'r plentyn ac yn sicrhau eu bod yn cael eu deall yn ystod pob cam o'r broses ddiogelu. Dylai adolygwyr geisio deall barn plant ar draws y siwrnai ddiogelu, sut y cafodd y farn honno ei hystyried a sut y gweithredwyd ar ei sail, a'r rôl a chwaraeodd plant mewn penderfyniadau diogelu a oedd yn effeithio arnynt, a'r canlyniadau dilynol.

## 6.3 Defnyddio eiriolaeth broffesiynol annibynnol

**Cyd-destun:** Mae eiriolaeth effeithiol yn hollbwysig os ydym am ddiogelu plant a phobl ifanc a'u hamddiffyn rhag camdriniaeth ac os ydym am hybu ymarfer[4]. Mae gan blant a phobl ifanc hawl i gynnig gweithredol o eiriolaeth gan Eiriolwr Proffesiynol Annibynnol statudol pan fyddant yn dod yn blant sy'n derbyn gofal neu'n dod yn destun ymholiadau

[3] https://policyinpractice.co.uk/case-study/partners-south-wales-use-mast-to-transform-safeguarding-by-connecting-data/
[4] National-advocacy-standards-Nov-02.pdf
[5] Gwasanaethau Eirioli Proffesiynol Annibynnol

amddiffyn plant sy'n arwain at Gynhadledd Amddiffyn Plant Gychwynnol[5] a fyddai'n bodloni'r meini prawf ar gyfer Adolygiad Ymarfer Plant Estynedig. Dim ond 33.3% o Adolygiadau Estynedig a wnaeth gyfeirio mewn unrhyw fodd at gymorth o ran eiriolaeth. Ym mwyafrif yr achosion hynny, roedd y cyfeiriad yn un byr ac nid oedd yn disgrifio'n glir beth oedd rôl yr eiriolwr mewn trafodaethau neu benderfyniadau diogelu. Yn 66.7% o'r Adolygiadau Estynedig, nid oedd unrhyw gyfeiriad penodol at eiriolaeth nac at b'un a oedd eiriolaeth wedi'i chynnig a'i derbyn neu'i gwrthod, neu a oedd y cynnig wedi'i ailystyried gyda'r plentyn. O gofio pwysigrwydd deall a chynnwys safbwynt y plentyn ar draws y broses ddiogelu, mae angen i adolygwyr fod yn sicr bod ganddynt y ddealltwriaeth hon.

Dylai **ymarferwyr a rheolwyr** sicrhau bod unrhyw gynigion o eiriolaeth yn cael eu hystyried cyn gynted ag sy'n bosibl a bod y cynigion hynny'n cael eu cofnodi yn ogystal â gwybodaeth ynghylch p'un a gawsant eu derbyn neu'u gwrthod. Os yw plentyn wedi gwrthod cael eiriolwr, dylid adolygu'r penderfyniad hwnnw os yn briodol. Dylid ystyried sut y caiff eiriolwr ei gynnwys yn y broses ddiogelu.

Dylai **adolygwyr** geisio deall a yw plentyn wedi cael cynnig Eiriolwr Proffesiynol Annibynnol ac, os gwnaeth y plentyn dderbyn y cynnig, beth oedd rôl yr eiriolwr yn y broses ddiogelu a'i gyfraniad i'r Adolygiad Ymarfer Plant. Os gwnaeth y plentyn wrthod cael eiriolwr, dylent geisio deall a gafodd y rhesymau dros hynny eu cofnodi ac a gafodd y penderfyniad hwnnw ei adolygu.

Dylai **Llywodraeth Cymru/Byrddau Diogelu Rhanbarthol** geisio adolygu ac ymgynghori er mwyn diffinio'n glir beth yw rôl eiriolwr mewn cyd-destun diogelu, archwilio pa hyfforddiant penodol sy'n bodoli ac ystyried a ddylai mwy o hyfforddiant gael ei ddarparu i weithwyr proffesiynol allweddol megis cadeiryddion cynadleddau.

O ran y plant sy'n ei chael yn anodd cyfathrebu'n uniongyrchol, gan gynnwys babanod neu'r sawl sydd ag anawsterau cyfathrebu, dylid ystyried deall y ffordd orau o ddirnad eu profiad go iawn.

Dylai **adolygwyr** barhau i fyfyrio ynghylch a yw safbwyntiau a phrofiadau go iawn y plentyn wedi'u deall ac a oes tystiolaeth bod hynny'n dylanwadu ar benderfyniadau diogelu.

Dylai'r **Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol/ Llywodraeth Cymru** ystyried comisiynu ymchwil i archwilio safbwyntiau plant, teuluoedd a phobl ifanc yn benodol er mwyn deall pa heriau y mae ymarferwyr yn eu hwynebu, yn eu barn nhw, wrth geisio deall eu profiadau go iawn a beth y maent yn teimlo fyddai'n cryfhau ymarfer o'r fath.

## 6.4 Parhad cydberthnasau llawn ymddiriedaeth ac ymarfer perthynol

**Cyd-destun:** Cafodd ansefydlogrwydd y gweithlu ei nodi yn 29.2% o'r Adolygiadau Ymarfer Plant, ond ni chafodd effaith hynny ei harchwilio'n gyson. Gall parhad ymhlith gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant a theuluoedd helpu i hybu ymarfer perthynol a datblygu cydberthnasau llawn ymddiriedaeth. Gall newidiadau o ran parhad ddeillio o heriau'n ymwneud â'r gweithlu neu wrth i wasanaethau gael eu darparu'n dameidiog gan wahanol asiantaethau. At hynny, nid yw pob asiantaeth yn rhan o'r broses ddiogelu, hyd yn oed os oes ganddynt rôl allweddol i'w chwarae ym mywyd y plentyn, er enghraifft fel gweithiwr cartref neu eiriolwr.



Dylai **ymarferwyr a rheolwyr** ystyried pwysigrwydd ymarferwyr ehangach, a allai fod yn chwarae rôl bwysig ym mywyd y plentyn ac a allai helpu i rannu eu safbwyntiau a'u profiadau go iawn, a dylent ystyried sut y gall y cydberthnasau hynny barhau neu gael eu trosglwyddo i ymarferwyr.

Mae angen i **adolygwyr** ddangos yn glir ble mae heriau o ran y gweithlu wedi bod yn broblem o ran sicrhau bod ymarfer perthynol yn cael ei sefydlu a'i gynnal. Dylai hynny gynnwys heriau o ran adnoddau, trosglwyddo rhwng asiantaethau, ac unrhyw rwystrau eraill a all effeithio ar allu plentyn i ddatblygu perthynas lawn ymddiriedaeth, er mwyn datgelu ei safbwyntiau a darparu dealltwriaeth glir o'i brofiad go iawn. Yn awr, dylai Adolygiadau Ymarfer Plant fod yn ceisio ystyried fel mater o drefn sut y gallai newidiadau i weithwyr cymdeithasol, pwysau staffio, neu ddiffyg parhad proffesiynol fod wedi effeithio ar waith asesu, uwchgyfeirio ac ymgysylltu.

Dylai'r **Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol/y tîm Adolygiadau Diogelu Unedig Sengl** ystyried ymchwil bellach er mwyn deall effaith heriau o ran y gweithlu fel thema allweddol a nodwyd mewn Adolygiadau Ymarfer Plant (ac mewn adolygiadau ehangach).

## 6.5 Tryloywder adborth gan blant, teuluoedd a gofalwyr mewn Adolygiadau Ymarfer Plant

**Cyd-destun:** Roedd eglurder adborth gan deuluoedd, ffrindiau a phlant yn adroddiadau'r Adolygiadau Ymarfer Plant yn amrywio. Roedd 41.7% ohonynt yn cynnwys crynodebau hawdd eu hadnabod o'r hyn a ddywedodd y rhieni neu'r bobl ifanc, neu roeddent yn dangos sut yr oedd eu myfyrdodau wedi'u hystyried yn y dadansoddiad. Ar y llaw arall, roedd 50% ohonynt yn cofnodi bod ymgynghori wedi digwydd ond nid oedd y cynnwys hwnnw'n hawdd ei weld yn yr adroddiad.

Dylai **adolygwyr** a **Byrddau Diogelu Rhanbarthol** geisio bod yn dryloyw wrth benderfynu pa mor amlwg yw'r adborth hwnnw yn yr adolygiad, a nodi'r ffordd orau y gall yr adborth lywio gwaith dysgu yn y dyfodol, gan gynnwys a oes unrhyw elfennau o hynny i'w gweld mewn argymhellion a gan ddangos ble y gweithredwyd ar sail unrhyw newidiadau. Dylai hynny ddeillio o ganllawiau'r Adolygiad Diogelu Unedig Sengl, sy'n nodi y dylai ymwneud y plentyn a'r teulu fod yn 'ganolog' i'r adolygiad[6].

Dylai'r **tîm Adolygiadau Diogelu Unedig Sengl** ystyried darparu data archwilio cliriach am gydymffurfio o ran cynhwysiant, sy'n nodi a ymgynghorwyd â phlentyn, teulu neu ofalwr, a gawsant eu gwahodd i gyfrannu i'r Adolygiad Ymarfer Plant ac a wnaethant dderbyn neu wrthod, a bod hynny'n cael ei nodi yn yr Adolygiad Ymarfer Plant. Ceir canllawiau clir ynghylch cynnwys hynny mewn adroddiadau, ond mae'r adroddiad hwn wedi amlygu heriau parhaus sy'n ymwneud â chyfleu hynny'n weithredol mewn Adolygiadau Ymarfer Plant.

## 6.6 Monitro'r modd y caiff argymhellion a phwyntiau dysgu o Adolygiadau Ymarfer Plant eu gweithredu

**Cyd-destun:** Yn 62.5% o'r Adolygiadau Ymarfer Plant, roedd yna argymhelliad neu bwynt dysgu a oedd yn ymwneud â deall safbwyntiau neu brofiad go iawn y plentyn. Mae hynny'n awgrymu bod y broblem hon yn un sylweddol sy'n digwydd dro ar ôl tro. Dangosodd y dadansoddiad thematig ddeg categori o'r gwahanol fathau o argymhellion sy'n ymwneud â'r broblem hon, sy'n awgrymu bod yna wahanol fathau o heriau. I sicrhau bod dysgu'n cael ei roi ar waith, mae'n debygol y byddai'n fuddiol cael diweddariad ynghylch sut y mae'r argymhellion a'r pwyntiau dysgu hynny'n cael eu symud yn eu blaen.

Dylai **Byrddau Diogelu Rhanbarthol** archwilio sut y gellir symud argymhellion a phwyntiau dysgu yn eu blaen o'r Adolygiadau Ymarfer Plant a'r Adolygiadau Diogelu Unedig Sengl y maent wedi'u comisiynu, o ran deall llais, safbwyntiau a phrofiadau go iawn y plentyn, a gwerthuso cynnydd o ran gweithredu'r argymhellion hynny. Gallai'r iFframwaith Argymhellion (Ball, McManus a Monaghan, 2025) fod o fudd a chymorth fel canllaw atodol. Nod cyflwyno proses yr Adolygiad Diogelu Unedig Sengl yw gwella ansawdd adolygiadau, a dylid cysylltu unrhyw argymhellion â'r ganolfan cydlynu Adolygiadau Diogelu Unedig Sengl er mwyn hybu cysondeb troi dysgu'n gamau gweithredu ymarferol.

## 6.7 Defnyddio data Adolygiadau Ymarfer Plant ymhellach ar lefel genedlaethol (dysgu o ran Adolygiadau Diogelu Unedig Sengl)

**Cyd-destun:** Nododd y dadansoddiad archwiliol gysylltiadau ystyrlon rhwng newidynnau allweddol, a oedd yn cynnwys y berthynas rhwng llais y plentyn, eiriolaeth a dysgu. Fodd bynnag, roedd y rheini'n seiliedig ar faint sampl bach. Mae'r canfyddiadau hyn yn amlygu gwerth posibl cyflawni gwaith dadansoddi pellach ar raddfa fwy.

O ganlyniad i greu Storfa Ddiogelu Cymru o fewn y tîm **Adolygiadau Diogelu Unedig Sengl**, mae angen ystyried sut y caiff y data cenedlaethol a gedwir yn y system hon ei ddadansoddi a'i rannu'n rheolaidd er mwyn deall yn well beth sy'n cefnogi arferion diogelu cryf sy'n canolbwyntio ar y plentyn, a sut y gellir ymgorffori'r rhain yn gyson ar draws gwasanaethau.

[6] Adolygiad Diogelu Unedig Sengl: canllawiau statudol

# Cyfeiriadau


Ball, E., McManus, M. & Monaghan, P. (2025) Recommendation iFramework: Single Unified Safeguarding Reviews (SUSR) Wales-aligned Guidance for Developing Stronger Safeguarding Recommendations. Available at: **Recommendation iFramework**

Braun, V., & Clarke, V. (2006). Using thematic analysis in psychology. *Qualitative Research in Psychology*, 3(2), 77–101. **https://doi.org/10.1191/1478088706qp063oa**

Child Safeguarding Toolkit. (2026). *Child safeguarding practice reviews* **https://www.childsafeguardingtoolkit.org.uk/child-safeguarding-practice-reviews**

Lamph, G., Nowland, R., Boland, P., Pearson, J., Connell, C., Jones, V., Wildbore, E. L., Christian, D., Harris, C., Ramsden, J., Gardner, K., et al. (2023). Relational practice in health, education, criminal justice, and social care: A scoping review. *Systematic Reviews*, 12(1), 194. **https://doi.org/10.1186/s13643-023-02344-9**

Llywodraeth Cymru. (2019). *Gweithio gyda'n gilydd i ddiogelu pobl: Cyfrol 2 – Adolygiadau ymarfer plant (Canllawiau statudol dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014).* **https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-06/gweithio-gydan-gilydd-i-ddiogelu-pobl-cyfrol-2-adolygiadau-ymarfer-plant.pdf**

Llywodraeth Cymru. (2023). *Adolygiad diogelu unedig sengl: Canllawiau statudol (Diweddarwyd 2024).* **https://www.llyw.cymru/adolygiad-diogelu-unedig-sengl-canllawiau**

Llywodraeth Cymru. (2025). *Active offers of advocacy for children, by local authority*. StatsWales. **https://statswales.gov.wales/Catalogue/Health-and-Social-Care/Social-Services/social-services-performance-and-improvement-framework/children-and-families/childrens-advocacy/activeoffersofadvocacyforchildren-by-localauthority**

McManus, M., Ball, E., & Almond, L. (2023). Risk, response and review: *Multi-agency safeguarding – A thematic analysis of child practice reviews in Wales 2023 (Full report).* National Independent Safeguarding Board Wales. **https://safeguardingboard.wales/wp-content/uploads/sites/8/2023/10/Full-Report-Child-Practice-Reviews-Wales-2023.pdf**

Rees, A. M., Fatemi-Dehaghani, R., Slater, T., Swann, R., a Robinson, A. L. (2019). *Canfyddiadau o ddadansoddiad thematig o Adolygiadau Ymarfer Plant yng Nghymru.* **https://bwrddiogelu.cymru/2020/01/28/findings-from-a-thematic-analysis-of-child-practice-reviews-in-wales/?noredirect=cy_GB**

Rees, A. M., Fatemi-Dehaghani, R., Slater, T., Swann, R., & Robinson, A. L. (2021). Findings from a thematic multidisciplinary analysis of child practice reviews in Wales. *Child Abuse Review*, 30(2), 141–154. **https://doi.org/10.1002/car.2679**




Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol Cymru

National Independent Safeguarding Board Wales